

Agenda

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC, Diwrnod 2 – Sesiwn Gyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 28 Ionawr 2022

Amser y cyfarfod: 9.30-16.10

Lleoliad:

Microsoft Teams:

Ymunwch ar eich cyfrifiadur neu ap symudol

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Neu ffoniwch i mewn (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545, 596034920#](tel:+442921055545596034920) Y Deyrnas Unedig, Caerdydd

Rhif Adnabod ar gyfer Cynadledda dros y Ffôn: 596 034 920#

Arsylwyr:

Amser

Eitem

9.30
(5 munud)

1. Agor y Cyfarfod

- Croeso
- Datganiadau o fuddiant
- Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

9.35
(5 munud)

2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2B. Adolygu'r Log Gweithredu Cyhoeddus

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu.

9.40
(10 munud)

3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

9.50
(20 munud)

4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y papur: 22-01-B20

**10.10
(30 munud)**

5. Adroddiadau Diweddarau gan y Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr:
Cadeiryddion y Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 16 Rhagfyr

Cyfeirnod y Papur: 22-01-B08

Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 18 Ionawr

Y Pwyllgor Cyllid – 7 Rhagfyr

Cyfeirnod y Papur: 22-01-B09

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 13 Ionawr

Cyfeirnod y Papur: 22-01-B21

Y Pwyllgor Pobl a Chyflogau – 10 Rhagfyr

Cyfeirnod y Papur: 22-01-B10

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – ni chynhaliwyd cyfarfod

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd a thu hwnt.

**10.40
(20 munud)**

6. Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynwyr: Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl; Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol; Lyn Williams, Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl

Crynodeb: CYMERADWYO Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC

Cyfeirnod y papur: 22-01-B11

**11.00
(15 munud)**

Egwyl

**11.15
(20 munud)**

7. Strategaeth Pobl CNC

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl

Crynodeb: CYMERADWYO Strategaeth Pobl CNC

Cyfeirnod y papur: 22-01-B12

11.35
(30 munud)

8. Pobl, Planed a Ffyniant a Diweddariad Gwerth Cymdeithasol

Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol
Cyflwynydd: Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy; Vernon Lambert, Rheolwr Caffael

Crynodeb: NODI cyflwyniad yn cyflwyno'r dull Pobl, Planed a Ffyniant, ac yna diweddariad llafar ar Werth Cymdeithasol mewn Caffael.

Cyflwyniad

12.05
(45 munud)

9. Diweddariad am Iechyd Coed gan gynnwys Cyflwyniad ar *Phytophthora pluvialis*

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynydd: Andrew Wright, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir

Crynodeb: NODI cyflwyniad ar y brigiad diweddar o achosion o'r clefyd coed *Phytophthora pluvialis* yng nghydestun diweddariad ehangach ar faterion iechyd coed.

Cyfeirnod y papur: 22-01-B13

12.50
(5 munud)

10. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddio

Cyfeirnod y papur: 22-01-14

12.55
(60 munud)

Cinio

13.55
(60 munud)

11. Deilliannau Trafodaethau Strategol

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynwyr: Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy

Crynodeb: NODI'r themâu a'r deilliannau y gellir gweithredu arnynt ac a godwyd yn nhrefnadaethau strategol blaenorol yn y Bwrdd.

Cyflwyniad

14.55
(20 munud)

12. Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru

Noddwr: Syr David Henshaw
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac
Ysgrifennydd y Bwrdd

**Crynodeb: CYMERADWYO'r Ddogfen Fframwaith newydd
rhwng CNC a Llywodraeth Cymru.**

Cyfeirnod y papur: 22-01-B15

15.15
(15 munud)

Egwyl

15.30
(5 munud)

13. Rhagolwg y Bwrdd

Noddwr: Syr David Henshaw
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd
y Bwrdd

Cyfeirnod y papur: 22-01-B16

15.35
(5 munud)

14. UNRHYW FATER ARALL

I'w gymeradwyo drwy ohebiaeth:

a) **Strategaeth Gwrth-dwyll**
Cyfeirnod y papur: 22-01-B17

b) **Cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol**
Cyfeirnod y papur: 22-01-B18

Er gwybodaeth drwy ohebiaeth:

c) **Diweddariad am Ddatganiadau Ardal**
Cyfeirnod y papur: 22-01-B19

Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd

15.40
(30 munud)

15. Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus

16.10

Diwedd y cyfarfod

Teitl y Cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Pawb yn Bresennol dros Microsoft Teams
Dyddiad y Cyfarfod:	18 Tachwedd 2021
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:	Syr David Henshaw (Cadeirydd) Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Karen Balmer (tan 12pm) Catherine Brown Geraint Davies Paul Griffiths Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau) Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol (Eitem 5) Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol (Eitem 5) Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol (Eitem 5) Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch (Eitem 6) Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir (Eitem 7) Ieuan Williams, Uwch-arolygydd Arbenigol (Eitem 7) Stuart Lyon, Uwch-gyfreithiwr Arbenigol (Eitem 7) Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru (Eitem 8) Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy (Eitem 8) Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd (Eitem 9) David Mee, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw (Eitem 9)
Arsyllwyr CNC:	Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol (Eitemau 7 ac 8)

Meinir Wigley, Arweinydd Tîm Cyfathrebu Integredig (Eitemau 7 ac 8)
Martyn Gough, Uwch Swyddog, Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Eitem 7)
Sophie Gott, Arbenigwr Technegol – Pysgodfeydd (Eitem 9)

**Arsyllwyr
Cyhoeddus:** Dr Rachel Hodson, Cangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd (PHEPB)
Steve Griffiths, BASC Cymru
Rachel Evans, Y Gynghrair Cefn Gwlad
Kim Davies, Cymdeithas Tai Sir Fynwy
Aelod ychwanegol o'r cyhoedd

Datganiadau: Zoe Henderson – Aelod o'r Gynghrair Cefn Gwlad
Geraint Davies – Aelod o'r Game and Wildlife Trust
Yr Athro Steve Ormerod – Is-lywydd RSPB

Ymddiheuriadau: Julia Cherrett
Karen Balmer (o 12pm)

Ysgrifenyddiaeth: Jocelyn Benger
Natalie Williams

Eitem 1: Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chrosawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant fel y nodwyd uchod.

Eitem 2: Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 23 Medi

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Medi.

2B. Adolygu'r Log Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd a chytunwyd ar y cofnod gweithredu.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Bu symudiad tuag at fodel hybrid o weithio yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, ac roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus hyd yma.
5. Roedd CNC wedi mynychu Cynhadledd y Pleidiau (COP26) yn Glasgow a Sioeau Teithiol Rhanbarthol COP26, a byddai'n cymryd rhan lawn yn Wythnos Hinsawdd Cymru o 22 Tachwedd.
6. Darparwyd diweddariad ar y gwaith Adferiad Gwyrdd parhaus. Cynhaliwyd cyfarfod â Gweinidogion, a byddai'r Grŵp yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau wrth symud ymlaen.
7. Byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i drafod materion cyfredol.

Eitem 4: Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau

8. Cyflwynodd Catherine Brown, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen, er y nodwyd bod newid i'r dull arfaethedig o wahodd Cadeiryddion Pwyllgorau i'r cyfarfod nesaf. Byddai rhagor o wybodaeth ynghylch hyn yn dilyn, a chadarnhawyd y gellid rhyddhau 16 Rhagfyr o ddyddiaduron.
9. Cyflwynodd Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, grynodedb byr o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref. Cyflwynwyd diweddiariad llawn i sesiwn breifat cyfarfod y Bwrdd ond nodwyd bod y Pwyllgor yn mynd rhagddo'n dda iawn ac yn cynnig cyngor amhrisiadwy i CNC, ac yn ystyried amrywiaeth o faterion gan gynnwys sicrhau bod data a thystiolaeth ar gael.
10. Nododd Syr David Henshaw, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, fod gwaith yn mynd rhagddo ac y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr.
11. Cyflwynodd Geraint Davies, ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Croesawyd Paul Griffiths a'r Athro Calvin Jones i'r Pwyllgor. Tynnwyd sylw at waith y rhaglen gyfalaf yn Llyn Tegid a'r trafodaethau manwl ar yr Achosion Busnes Llawn ar gyfer prosiectau yn Rhydaman a Stryd Stephenson, Casnewydd. Nodwyd bod adborth negyddol wedi'i dderbyn gan Fwrdd Ardal Draenio Mewnol ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda hwy i ddatrys problemau.
12. Cyflwynodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Diolchwyd i'r Cadeirydd, Howard Davies, ar ei ymadawiad, a chroesawyd Mark McKenna i'r Pwyllgor. Roedd cyfarfodydd yn y dyfodol i fod i ystyried rhai materion sylweddol, a fyddai'n cynnwys ystyried y rhaglen tirweddau dynodedig integredig, edrych ar yr asesiad tirwedd ledled Cymru, ac yn arbennig, y potensial ar gyfer y parc cenedlaethol newydd. Byddai'r Rhaglen Cyflawni Safleoedd Gwarchodedig hefyd yn cael ei harchwilio. Roedd hyfforddiant cyfreithiol wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mai 2022 mewn perthynas â safonau llywodraethu a gwahoddwyd holl aelodau'r Bwrdd i fod yn bresennol. Cadarnhawyd y byddai'r sesiwn yn cael ei recordio ac y bydd crynodeb yn cael ei ddosbarthu. Rhoddwyd eglurhad o'r gwaith 30x30, sef cynnig rhyngwladol y dylai pob gwlad roi lefel benodol o ddiogelwch i 30% o'i harwynebedd tir a môr. Roedd dadleuon yn parhau ynghylch pa ardaloedd ddylai fod yn gymwys ar gyfer diogelu bioamrywiaeth.

CAM GWEITHREDU: Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad cryno gan bob Pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol.

Eitem 5: Adroddiad Chwarter 2 Cynllun Busnes a Dangosfwrdd Perfformiad

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol; Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol; Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol

13. Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o bresenoldeb a chyfranogiad CNC yng nghynhadledd ddiweddar COP26. Er bod lefel o siom ynghylch deilliannau trafodaethau'r COP, roedd ymwneud Cymru a CNC â mynychwyr eraill wedi bod yn gadarnhaol iawn. Roedd cynrychiolwyr CNC wedi gweithio'n galed gyda chwaer-sefydliadau cadwraeth natur a diogelu'r amgylchedd i arddangos eu gwaith ac roedd hyn wedi ennyn lefel uchel o ddiddordeb. Roedd cynrychiolaeth dda o bobl ifanc, yn enwedig o Gymru, ac roeddent yn dangos diddordeb ac yn mynegi eu hunain yn dda. Byddai'n bwysig eu cynnwys yn y rhaglen Natur a Ni. Cyflwynwyd tystebau teimladwy gan bobl o wledydd eraill a oedd yn profi newid gwirioneddol yn yr hinsawdd. Cafodd y Diwrnod Natur lawer o ddiddordeb a

chynhaliwyd sesiynau ar atebion sy'n seiliedig ar natur. Diolch i'r Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio, yr Uwch Gy nghorydd Arbenigol, Cyfathrebu â'r Cyfryngau, a Chyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu am eu gwaith caled.

14. Tynnwyd sylw at Wythnos Hinsawdd Cymru, a fyddai'n dod â rhai o aelodau'r COP i Gymru. Byddai'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan yn y sesiwn gychwynol gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Sophie Howe, a'r Arglwydd Deben. Byddai CNC yn cymryd rhan mewn sesiynau drwy'r wythnos. Byddai Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Adfer y Gylfinir hefyd yn cael ei lansio yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru.
15. Cydnabuwyd yr her o ran cyllid ar gyfer cyflawni'r dyheadau a'r anghenion. Roedd canlyniad yr Adolygiad Sylfaenol yn destun trafodaeth ddwys ar y gyllideb gyda Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. Byddai angen cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch blaenoriaethau. Byddai'r Gyllideb a'r Llythyr Cylch Gwaith nesaf yn bwydo i mewn i'r Cynllun Busnes a'r Cynllun Corfforaethol newydd. Rhannwyd y pum blaenoriaeth strategol.
16. Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o ddiweddariad perfformiad yr ail chwarter, o fis Gorffennaf hyd at ddiwedd mis Medi, ynghyd â'r newyddion diweddaraf am rai o'r dangosyddion. Adroddwyd am 34 o fesurau Dangosfwrdd Perfformiad roedd y Bwrdd wedi cytuno arnynt. Adroddwyd bod y statws Coch Oren Gwyrdd (RAG) yn ddau Goch, wyth Oren a 24 Gwyrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen, ond tynnwyd sylw at yr eitemau canlynol.
17. Cafodd 'Cynllun Grant Coetir Glastir' a'r 'Ardal o goetir newydd a grëwyd ar Ystâd CNC' eu hystyried yn Wyrdd. Roedd y rhain yn mynnu'r sylw ar hyn o bryd a nodwyd eu bod yn mynd yn dda. Roedd y 'Camau a gymerwyd i adfer mawndiroedd Cymru' yn mynd rhagddynt yn dda ac roedd arian ychwanegol yn cael ei geisio ar gyfer y flwyddyn nesaf.
18. Roedd 'Cyflawni'r gwaith o ddarparu'r ymchwiliadau cysylltiedig â dŵr sy'n weddill a datblygu Cynlluniau Rheoli Basn Afon' yn cael ei raddio'n Goch. Nodwyd bod yr un staff sy'n delio â'r mater hwn hefyd yn mynd i'r afael â materion afonydd yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Byddai hyn yn cael ei adolygu a'i adrodd yn ofalus y tro nesaf. Nodwyd 'Cynnydd i leihau llygredd o fwyngloddiau metel' fel Oren, ond roedd rheolaeth rhaglenni cadarn yn cael ei roi ar waith.
19. Cafodd 'Ymateb i ddigwyddiadau' ei raddio fel Oren. Nodwyd perfformiad o 89% yn erbyn y targed o 95%. Trafodwyd hyn yn fanwl yng nghyfarfod preifat y Bwrdd, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y mater hwn. Roedd 'Gwneud taliadau ar amser' yn cael ei raddio'n Goch. Roedd staff dros dro wedi cael eu recriwtio i unioni hynny.
20. Roedd rhaglen Adnewyddu Covid wedi'i arafu yn dilyn diweddariad i'r canllawiau Covid, a byddai oedi pellach cyn cyflwyno'r treialon gweithio hybrid.
21. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Cwestiynwyd lleihau'r targed perfformiad ar ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â dŵr. Darparwyd sicrwydd bod y gostyngiad wedi'i gyflwyno er mwyn helpu i reoli'r targed, gan edrych ar y gwaith ehangach ar ansawdd dŵr dros gyfnod tymor hwy. Soniodd aelodau'r Bwrdd am oblygiad diffyg gwydnwch yn y maes hwn. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith manwl ar osod targedau a gynlluniwyd ar gyfer cyfarfod y Tîm Gweithredol ym mis Tachwedd, ac ar ôl hynny byddai cynnig ystyriol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd.

22. Mynegodd aelodau'r Bwrdd eu diolch i dîm CNC am eu cynrychiolaeth yn COP. Trafodwyd y defnydd o'r mesurau i fyfyrion ar yr hyn yr oedd CNC yn ei wneud a'i gyflawni. Tynnwyd sylw yn COP at bwysigrwydd gobaith a galluedd i wneud gwahaniaeth.
23. Mynegwyd pryderon ynghylch y sgôr Goch wrth fesur gwneud taliadau'n brydlon. Darparwyd cefndir y mater hwn, a oedd yn deillio'n bennaf o lefel y salwch o fewn y tîm. Cwestiynodd aelodau'r Bwrdd y cyfnod ymateb o 30 diwrnod o dan amodau arferol a gofynnwyd am eglurder pellach ar y mater hwn.

CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i roi'r wybodaeth gefndir i aelodau'r Bwrdd am yr oedi wrth wneud taliadau.

Eitem 6: Lles, Iechyd a Diogelwch

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

24. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol, a nododd fod y Pwyllgor Pobl a Chyflogau (PaRC) a'r Pwyllgor Lles, Iechyd a Diogelwch wedi craffu ar Strategaeth Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-24.
25. Cyflwynodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y digwyddiadau a ddigwyddodd ar Ystad CNC, gan gynnwys y farwolaeth ddiweddar. Roedd Adolygiad o Ddigwyddiad Difrifol (SIR) wedi'i agor a'i oedi wrth aros am ganlyniad ymchwiliad y Crwner a'r Heddlu. Cysylltwyd â'r Rheolwyr Tir i weld a oedd angen unrhyw gamau brys, ond ni nodwyd dim. Nodwyd hyn ar gyfer y cofnodion.
26. Bu aelodau'r Bwrdd yn myfyrion ar gynnwys yr adroddiad a chodwyd y mater o bwysigrwydd dylunio swyddi ar faterion iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gwaith. Nodwyd yr ymateb i'r mater hwn drwy ddarparu gwasanaethau lles ond byddai'n allweddol ystyried yr amgylchedd gwaith a greodd y pwysau ar iechyd meddwl. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol lunio papur ar ddylunio swyddi a sut roedd hyn yn ymwneud ag afiechyd meddwl, a'r camau y gellid eu cymryd i wella'r mater hwn. Gofynnwyd am drafodaeth fwy sylweddol ar y mater hwn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol fod hyn wedi'i drafod yng nghyd-destun yr Ymarfer Sylfaenol ynghylch adnoddau a disgwyliadau. Roedd sesiwn ar ludedd wedi'i chynnal ar gyfer y staff ac roedd 250 o bobl wedi mynychu. Cydnabuwyd bod llawer o sefydliadau'n delio â materion tebyg. Byddai'r Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch yn mynychu Fforwm Lles, Iechyd a Diogelwch i ystyried beth y gellid ei wneud i gefnogi staff. Byddai'r cysylltiad â Chynllunio'r Gweithlu yn allweddol ar gyfer ystyried pwysau yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i lunio papur ar ddylunio swyddi a'r berthynas ag afiechyd meddwl, a'r camau y gellid eu cymryd i wella'r mater hwn.

WEDI'I GYMERADWYO: Strategaeth Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-24

Eitem 7: Hela Trywydd ar Ystad CNC

Cyflwynwyr: Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir; Ieuan Williams, Uwch-arolygydd Arbenigol; Stuart Lyon, Uwch-gyfreithiwr Arbenigol.

27. Croesawodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu aelodau'r cyhoedd a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod i glywed y drafodaeth ar yr eitem hon. Nodwyd y cyd-destun ar gyfer penderfyniad ar yr eitem a darparwyd gwybodaeth gefndir fel y nodwyd yn y papur. Roedd y Tîm Gweithredol wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer ymateb CNC, yng ngoleuni'r dyfarniad euog a roddwyd i Gyfarwyddwr y Masters of Fox Hounds

Association (MFHA), yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol ar 19 Hydref 2021. Argymhellodd y Tîm Gweithredol na ddylid adnewyddu trwyddedu hela trywydd ar Ystad CNC o ystyried yr adnoddau cynyddol y byddai eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a'r costau ynghlwm wrth yr oruchwyliaeth gynyddol honno i CNC. Cafwyd gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i hysbysu bod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai CNC ystyried gwaharddiad parhaol ar hela trywydd ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru.

28. Cynhaliwyd trafodaeth lawn ar wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r mater hwn yn sesiwn breifat cyfarfod y Bwrdd ar 17 Tachwedd 2021. Ar ôl ystyried, cytunwyd, er bod gan aelodau'r Bwrdd amrywiaeth o fuddiannau datganedig, nad oedd unrhyw fuddiannau o bwys digonol a oedd yn gofyn i aelodau'r Bwrdd gael eu heithrio o'r ddadl.
29. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd unrhyw dystiolaeth ynghylch yr effeithiau ariannol a'r effeithiau posibl ar gyfleoedd lles a hamdden cymunedol pe bai gwaharddiad ar hela trywydd ar Ystad CNC yn cael ei osod. Nodwyd bod y mater hwn wedi'i ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r papur. Byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn cwmpasu Ystad CNC nid Cymru gyfan, ac felly, er y byddai rhywfaint o effaith, roedd hyn yn debygol o fod yn fach.
30. Nododd aelodau'r Bwrdd gryfder teimlad y rhai o blaid ac yn erbyn hela trywydd, a disgrifio eu lefel eu profiad eu hunain yn y maes hwn. Ystyriwyd yr opsiynau a gyflwynwyd yn y papur. Tynnwyd sylw at werth hela trywydd i'r gymuned Gymreig a dadleuwyd na ddylai collfarn un aelod o'r MFHA arwain at golli amwynder i bob heliwr trywydd. Mynegwyd pryderon hefyd am y posibilrwydd o gynydd yn y bygythiad i adar sy'n nythu ar y ddaear oherwydd erydu'r system yn raddol ar gyfer rheoli ysglyfaethwyr yng nghefn gwlad. Esboniwyd bod rheoli ysglyfaethwyr trwyddedig o dan amodau caeth yn fater ar wahân, a gwmpesir gan gytundeb â sefydliad gwahanol ac nad yw'r penderfyniad hwn yn effeithio arno.
31. Ystyriwyd Opsiwn C yn y papur ar gynnal Adolygiad Rheoli Adnoddau Naturiol (SMNR) yn Gynaliadwy o'r gweithgaredd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod risg o weithgarwch anghyfreithlon o hyd ac roedd hyn, ynghyd â budd cost anffafriol a mwy o angen am adnoddau, wedi ysgogi sawl aelod o'r Bwrdd i ystyried na ddylid adnewyddu'r trwyddedau hela trywydd. Teimlwyd hefyd y dylid blaenoriaethu adnoddau tuag at yr argyfyngau hinsawdd a natur.
32. Cyflwynodd y Cadeirydd grynodedeb o'r drafodaeth a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd ail-ddatgan eu buddiannau fel y nodwyd uchod. Cynhaliwyd pleidlais breifat ar yr opsiynau a gyflwynwyd yn y papur. Datganodd y Cadeirydd y canlyniad fel deg aelod o'r Bwrdd o blaid yr opsiwn a argymhellwyd o beidio ag adnewyddu'r cytundeb gyda MFHA a pheidio â rhoi caniatâd i helfeydd ddefnyddio Ystad CNC ar gyfer hela trywydd. Pleidleisiodd dau aelod o'r Bwrdd yn erbyn yr opsiwn a argymhellwyd, gan ffafrio parhad hela trywydd drwy un o'r opsiynau eraill a fyddai'n caniatáu hyn. Nid oedd neb wedi ymatal.
33. Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Rachel Evans o'r Gynghrair Cefn Gwlad, a oedd yn bresennol fel aelod o'r cyhoedd, i siarad. Mynegodd siom am y penderfyniad a chwestiynodd lefel yr ymgysylltu ar y mater.

WEDI'I GYMERADWYO: Peidio ag adnewyddu ein cytundeb gyda'r MFHA a gwrthod caniatâd i Helfeydd ddefnyddio Ystad CNC ar gyfer hela trywydd os ydynt yn cyflwyno cais i ni. Byddai CNC hefyd yn rhoi'r gorau i roi caniatâd ar gyfer trefniadau mynediad yn unig ar Ystad CNC gan fod hyn yn cael ei reoli o dan yr un cytundeb.

34. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau drosolwg o sefyllfa bresennol y gwaith parhaus i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr gyda sefydliadau partner Ofwat, Llywodraeth Cymru a'r cwmnïau dŵr yng Nghymru. Nid oedd y map wedi'i gymeradwyo gan y sefydliadau partner eto, ac felly nid oedd ar gael i'w gyflwyno yn y cyfarfod. Roedd yr Adolygiad Sylfaenol wedi tynnu sylw at yr anawsterau o ran adnoddau yn y maes hwn. Byddai'r broblem gorlif stormydd yn cael ei hystyried yng nghyd-destun y gwaith ehangach o ansawdd dŵr yng Nghymru. Roedd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru wedi'i hailgyfeirio o'i rôl er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu fframwaith i'r materion ansawdd dŵr ehangach.
35. Rhoddodd y Rheolwr Dŵr Cynaliadwy gyflwyniad ar gynnydd ac argymhellion y Tasglu Ansawdd Dŵr Gwell a sefydlwyd i ddatblygu'r ymateb i effaith, rheoleiddio ac effeithlonrwydd gorlif stormydd ar y rhwydwaith carthion. Byddai hyn yn ymchwilio i'r trafferthion, yn ystyried monitro cyfredol, ac yn datblygu rhaglenni gwella hirdymor, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Byddai gwaith gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CC Water) yn digwydd i roi persbectif y cwsmer a rhywfaint o'r sylfaen dystiolaeth.
36. Rhannwyd yr amcan cyffredinol, gan dynnu sylw at y nod o leihau gollyngiadau, gan barhau i amddiffyn rhag llifogydd. Disgrifiwyd y map ar gyfer gorlif stormydd, a fyddai'n bwydo i mewn i'r map ansawdd dŵr ehangach ar gyfer gwella. Roedd hyn yn cynnwys rhestr o argymhellion a'r llwybr at wella. Rhannwyd y camau nesaf i'w cyflawni erbyn mis Chwefror 2022, a oedd yn cynnwys datblygu a chytuno ar y cynlluniau gweithredu. Rhannwyd yr argymhellion ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau gweledol, effeithiolrwydd y rhwydwaith, datblygu rhaglen fonitro well, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid.
37. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys y papur a'r cyflwyniad. Croesawyd y pwyslais ar gyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid, yn enwedig o ran annog dealltwriaeth o effeithiau eitemau sy'n cael eu gwaredu yn y system garthffosiaeth. Cydnabuwyd bod lefel uchel o awydd gan y cyhoedd i fynd i'r afael â gorlif stormydd a byddai'n bwysig adeiladu ar y momentwm i fwrw ymlaen â'r gwaith i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr ehangach. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at y ffaith y byddai angen i'r deunydd cyhoeddus ar y mater hwn fod yn hygyrch, a darparu manylion mwy penodol, yn enwedig o ran mesur effeithiau.
38. Trafodwyd adnoddau, yn enwedig mewn perthynas â monitro. Tynnwyd sylw at y gwaith ar yr adolygiad strategol o godi tâl mewn ymateb i hyn. Nodwyd y byddai angen mwy o wybodaeth am faint o garthion sy'n bresennol ochr yn ochr â'r broses flaenoriaethu i fonitro symiau o lygryddion dŵr eraill fel microblastigau, cynhyrchion fferyllol a bacteria. Tynnwyd sylw at uchelgais gytûn y sector amaethyddol i ddileu gollyngiadau slyri a'r cais na ddylid defnyddio'r dystiolaeth a gesglir i feio sectorau eraill. Nodwyd y cyhoeddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat am ymchwiliad i driniaeth carthion cwmnïau dŵr Lloegr. Tynnwyd sylw at y buddsoddiad mewn monitro a'r data sy'n deillio o hynny a chydabuwyd y byddai'n bwysig i CNC gysylltu â sefydliadau partner ar y mater hwn, yn enwedig mewn perthynas â dosrannu. Nodwyd bod CNC yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac yn rhan o Weithgor Llif i Driniaeth Lawn yng Nghymru.

CAM GWEITHREDU: Sesiwn friffio ar faterion ansawdd dŵr i gael ei chynnig i aelodau newydd y Bwrdd.

Eitem 9: Is-ddeddfau Pysgodfeydd Statudol

39. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r eitem a rhoddodd gefndir i'r eitem i'w thrafod.
40. Rhoddodd y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd gyflwyniad i gefnogi'r wybodaeth a ddarparwyd eisoes yn y papur. Rhannwyd y data ar gwmp niferoedd eogiaid a brithyllod môr dros y degawdau ac asesiadau stoc 2020. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn disgrifio'r dalfeydd gwialen ar Afon Gwy a'r Afon Wysg fel yr isaf a welwyd erioed a disgrifiwyd dalfeydd rhwyd ar gyfer brithyllod môr yn llawer is na'r cyfartaledd hirdymor. Darparwyd trosolwg o'r angen am yr is-ddeddfau newydd a rhannwyd y cynllun gweithredu eogiaid a brithyllod môr. Disgrifiwyd ymgysylltu â grwpiau pysgodfeydd lleol a thynnwyd sylw at ffocws eu pryderon ynghylch ansawdd dŵr, defnydd tir ac ysglyfaethu.
41. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chwestiynwyd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y cymariaethau ystadegol. Eglurodd y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, y broses ymateb a lefel yr ymatebion a gafwyd. Canmolwyd lefel manylder a chynnwys yr ymgynghoriad a'r ymdrech a roddwyd i'r gweithgaredd ymgysylltu gan aelodau'r Bwrdd. Awgrymwyd y gellid defnyddio hyn fel esiampl.
42. Holwyd a ellid mynd i'r afael â materion rheoli tir perthnasol cyn dechrau'r cyfnod pontio i'r Cynllun Rheoli Ffermydd yn Gynaliadwy yn 2025. Cyflwynodd y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am rywfaint o'r gwaith sydd eisoes ar y gweill, megis Aseiad Cynefinoedd Afon Pysgodfeydd mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Afonydd, cyflwyno cynlluniau cynefin a mynd i'r afael â rhwystrau mudo pysgod. Cyflwynodd y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw, drosolwg o'r Cynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod Môr a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda Fforwm Pysgodfeydd Cymru ar hyn. Disgrifiwyd y gwaith ar gynllun gweithredu pum mlynedd y North Atlantic Salmon Conservation Organisation (NASCO) hefyd.
43. Cydnabu aelodau'r Bwrdd yr ystadegau syfrdanol ar y gostyngiad mewn stoc eogiaid a brithyllod môr a thalodd deyrnged i'r tîm am eu gwaith. Cymeradwywyd yr argymhellion yn y papur i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

CYMERADWYWYD: Cais i Lywodraeth Cymru i gadarnhau is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid a brithyllod y môr ar Afon Wysg ac Afon Gwy yng Nghymru (am gyfnod o wyth mlynedd).

CYMERADWYWYD: Cais i Lywodraeth Cymru i gadarnhau is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid a brithyllod y môr ar Afon Hafren yng Nghymru (am gyfnod o ddeng mlynedd).

Eitem 10: Diwygiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

44. Cyflwynodd Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd drosolwg o ddiwygiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol a chadarnhaodd fod y rhain hefyd wedi'u cymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr.
45. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y farn archwilio sylweddol a dderbyniwyd ynghylch y Cynllun Statudol a Chyfreithiol. Diolchodd Cadeirydd ARAC i'r tîm am eu hymdrechion yn y maes allweddol hwn.

WEDI'I GYMERADWYO: Diwygiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol

- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -

Eitem 11: Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus

46. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.

47. Gofynnodd Rachel Evans o'r Gynghrair Cefn Gwlad a fyddai cyfle i adolygu'r penderfyniad ar hela trywydd ac os felly, yna hoffai gael y cyfle i ymgysylltu ar hyn mewn modd agored. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei drafod gyda'r Prif Weithredwr ac ymateb yn cael ei ddarparu.

CAM GWEITHREDU: Y cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu ynghylch hela trywydd yn y dyfodol i'w ystyried ac ymateb i gael ei roi i Rachel Evans.

- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif y Cam Gweithredu	Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Para	Nodwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
9	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod gyda Phen-naeth Gweithrediadau'r Gogledd-ddwyrain y syniad o gynnal trafodaeth yn y dyfodol gyda'r Bwrdd ynghylch y cyfyngiad 4 awr ar ymateb i ddigwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	23/03/2022	Parhaus	Ychwanegwyd at y rhestr o eitemau trafod strategol posibl, cyflwyniadau Lle, sesiynau Tystiolaeth ac ymweliadau â safleoedd. Awgrym mair dyma ddylai fod yn eitem drafod strategol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi ac y dylem ohirio cau pen y mwdwl ar themâu'r trafodaethau strategol eraill o'r herwydd. Ychwanegwyd at Ragolwg Tachwedd. Dylid ei ystyried fel rhan o'r eitem ar themâu trawsbynciol y Cyflwyniad Lle a symudwyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022.
10	Cyhoeddus	26/11/2020	8	31	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau'r De-orllewin i ddarparu nodyn i'r Bwrdd yn ymwneud â dulliau arloesol newydd/technolegau newydd/dulliau a ddefnyddiwyd, sydd wedi helpu'r tîm gweithrediadau yn ystod Covid.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	20/12/2020	Parhaus	Gofynnwyd am ddiweddariad ar 13/07/2021 Gofynnwyd am ddiweddariad ar 02/09/2021 Gofynnwyd am ddiweddariad gan Martyn a Gareth ar 22/10/21. Gofynnwyd am ddiweddariad 16/12/21
24	Cyhoeddus	24/03/2021	4	10	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifennyddiaeth i holi ynghylch argaeledd ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio ar fyfyrta a heriau yn y dyfodol ar ôl Covid.	Yr Ysgrifennyddiaeth	07/07/2022	Parhaus	Mae'r Cadeirydd wedi cadarnhau y bydd Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd yn cael eu gohirio hyd nes y gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Trefnwyd Diwrnod Datblygu nesaf y Bwrdd ar gyfer 07/07/22.
81	Cyhoeddus	23/09/2021	6	12	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Dylid rhoi amserlen i aelodau'r Bwrdd ar gyfer argaeledd cynhyrchion SoNaRR ar y wefan.	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol	01/11/2021	Wedi'i gwblhau	Mae Catrin wedi trafod y cam gweithredu hwn gyda Steve Ormerod a Chris Collins ac wedi cadarnhau bod y tudalennau SoNaRR ar y wefan wedi'u cwblhau, gan gydnabod mai proses ailadroddol yw hon ac y bydd pethau'n newid.
83	Cyhoeddus	23/09/2021	6	14	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Papur cryno'n ymwneud â choedwigaeth a materion pren i'w ddarparu ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol	23/03/2022	Parhaus	Trafodaeth strategol bellach wedi'i chynllunio ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.
98	Cyhoeddus	18/11/2021	4	9	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Gofynnodd y Cadeirydd am adroddiad cryno gan bob Pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol.	Ysgrifennyddiaeth y Bwrdd	25/11/2021	Wedi'i gwblhau	Ychwanegwyd at eitemau sefydlog Rhagolwg y Bwrdd
99	Cyhoeddus	18/11/2021	5	23	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i roi'r wybodaeth gefndir i aelodau'r Bwrdd am yr oedi wrth wneud taliadau.	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	15/12/2021	Wedi'i gwblhau	Anfonwyd gwybodaeth at aelodau'r Bwrdd drwy e-bost ar 20/12/21
100	Cyhoeddus	18/11/2021	6	26	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i lunio papur ar ddylunio swyddi a'r berthynas ag afiechyd meddwl, a'r camau y gellid eu cynryd i wella'r mater hwn.	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	04/03/2022	Parhaus	Wedi'i gynnwys yn y Rhagolwg ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Chyflogau (PaRC) ym mis Mawrth
101	Cyhoeddus	18/11/2021	8	38	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	CAM GWEITHREDU: Sesiwn frifio ar faterion ansawdd dŵr i'w chynnig i aelodau newydd y Bwrdd.	Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin	15/12/2021	Wedi'i gwblhau	Cynigiwyd sesiwn frifio i aelodau newydd y Bwrdd ar 24/01/22.
102	Cyhoeddus	18/11/2021	11	47	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Y cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu ar gynnal hela trywydd yn y dyfodol i'w ystyried, a rhoi ymateb i Rachel Evans.	Prif Weithredwr	15/12/2021	Wedi'i gwblhau	



Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyfeirnod y Papur:	22-01-B20
Noddir a Chyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr

Diben y Papur:	Rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i Fwrdd CNC ar faterion strategol, gweithredol a mewrol yn CNC.
Argymhelliad:	I'w Draford

Fformat yr Adroddiad

Dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio'r arddull newydd o adrodd ar eitemau'r Prif Weithredwr. Bydd yr adroddiad llawn, gan gynnwys eitemau sensitif swyddogol, yn dod gerbron y cyfarfod bwrdd ar y diwrnod preifat lle bydd eitemau sensitif yn cael eu trafod. Dylai'r holl drafodaethau eraill gael eu cynnal ar y diwrnod cyhoeddus, lle bydd fersiwn wedi'i golygu a'i chyfieithu o'r adroddiad, heb yr eitemau sensitif, ar gael i'r cyhoedd.

Cyflwyniad

1. Unwaith eto, mae'r sylw wedi bod ar yr Ymarfer Gwaelodlin a'r trafodaethau cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru dros y mis neu ddau ddiwethaf. Mae'r rhain bellach wedi cyrraedd y cyfnod 'tyngedfennol' ond, erbyn mis Mawrth, dylent olygu y dylem fod â rhestr gytûn o flaenoriaethau a nodwyd mewn llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth a llythyr cyllideb blynyddol a fydd yn cynnwys cyllid dangosol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Recriwtio Uwch Aelodau Staff

2. Rydym wedi penodi Odgers i ddechrau'r broses recriwtio allanol ar gyfer llenwi rôl Pennaeth Datblygu Sefydliadol – bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn ddiweddarach y mis hwn.

Ymgysylltu Allanol

3. Gydag Wythnos Newid Hinsawdd Cymru yn dynn ar sodlau COP26, bu cydweithwyr o bob rhan o CNC yn cymryd rhan mewn llawer o'r sesiynau difyr dros ben, gyda'r tîm cyfathrebu'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau presenoldeb cryf

mewn trafodaethau allweddol ar yr hinsawdd. Bum yn siarad ochr yn ochr â'r Gweinidog wrth iddi lansio'r digwyddiad a chymerais ran mewn trafodaeth banel ar arweinyddiaeth wasgaredig.

4. O fewn y cyfyngiadau ar y pryd, roedd yn wych gallu mynd i Ffair Aeaf Frenhinol Cymru a gweld cymaint o gydweithwyr a phartneriaid wyneb yn wyneb. Cynrychiolwyd CNC yn fedrus gan staff o bob rhan o'r sefydliad, a chefnogwyd y gwaith o hyrwyddo ein rôl reoleiddio drwy lansio fideos y prosiect Ilaeth a'r ymgyrchoedd cydymffurfio â rheoliadau gwastraff peryglus. Mynychais ddigwyddiad brechwast Hybu Cig Cymru a chyfarfûm ag uwch gynrychiolwyr Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA), a Chyddfederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor).
5. Ym mis Rhagfyr, cyfarfûm â Sally Holland, y Comisiynydd Plant sy'n gadael y swydd, a Sue Morgan, Prif Weithredwr newydd Sefydliadau Tirweddau'r DU. Cefais gyfarfod hefyd â Chadeirydd newydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Dr David Clubb a Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Dros Dro Diogelu'r Amgylchedd i Gymru. Cyfarfu Dr Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol newydd Llywodraeth Cymru, a minnau ganol mis Rhagfyr i drafod ei flaenoriaethau ar gyfer y rôl, a sut y gallem ei gefnogi yn ei uchelgeisiau ar gyfer sector cyhoeddus Cymru'n Un. Rwyf hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gydag Andrew White o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a chyda Claire Doherty o Collective Cymru a Marc Rees o National Theatre Wales.
6. Mynychodd cydweithwyr banel ar-lein ar faterion morol yn y pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar 9 Rhagfyr, cyn y Sesiwn Graffu Flynyddol gyda'r un Pwyllgor ar 20 Ionawr lle bydd David, Ceri a minnau'n rhoi tystiolaeth. Cefais gyfarfod ar wahân hefyd gydag aelodau'r Pwyllgor Delyth Jewell AS a Jenny Rathbone AS, a chyda Jane Hutt AS ar faterion etholaethol.
7. Ym mis Ionawr, cyfarfûm â Chyswllt Amgylchedd Cymru ac arweinwyr y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, yn ogystal â Phrif Weithredwyr Natural England, Nature Scot a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Cyfarfûm hefyd â Chadeirydd newydd Prifysgolion Cymru, yr Athro Elizabeth Treasure, a byddaf yn cyfarfod ag Arweinydd CLILC, y Cynghorydd Andrew Morgan, cyn bo hir.

Adfywio

8. Mae ailstrwythuro'r adrannau Fflyd a Rheoli Cyfleusterau, gan gynnwys penodi swyddi eraill sy'n allweddol i Adnewyddu, yn mynd rhagddo'n dda. Pan fydd cyfyngiadau Covid yn dychwelyd i lefel sero, byddwn yn ailystyried gweithredu'r treialon gweithio hybrid rhwng y swyddfa a'r cartref i gynnwys mwy o swyddfeydd a staff ac adolygu ein polisiau gweithio gartref / gweithio hyblyg, gyda'r bwriad o gyflwyno newidiadau ffurfiol yn ddiweddarach yn 2022. Mae'r system newydd ar gyfer

archebu desgiau ac ystafelloedd cyfarfod bellach wedi mynd yn fyw, gyda'r adborth cychwynnol yn gadarnhaol iawn.

9. Mae'r Bwrdd Adnewyddu yn parhau i wneud penderfyniadau perthnasol ac yn cymryd camau gweithredu ochr yn ochr â'r Grŵp Ymateb, Adfer ac Adolygu Digwyddiadau Strategol sydd wedi'i roi ar waith unwaith eto o ganlyniad i'r newid yn lefelau rhybudd Covid. Mae'r Grŵp Ymateb Tactegol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw broblemau newydd sy'n ymwneud â Covid yn cael eu canfod a'u datrys.
10. Mae'r Rheolwr Prosiect dros dro ar gyfer ffrwd waith y Fflyd yn parhau i alluogi'r gwaith i symud ymlaen yn gyflym i sicrhau newid sylfaenol yn y maes hwn. Mae gwaith hefyd yn parhau yn y ffrwd waith Gofod, gyda'r holl dimau Lle yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gymhathu eu cynigion. Y nod yw cyhoeddi'r strategaeth ar ddechrau Chwarter 1 2022/2023.
11. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth, y Tîm Rheoli ac Arweinwyr Tîm yn parhau i ymgysylltu i gefnogi'r dull integredig ar draws y sefydliad ac i ledaenu negeseuon cyfathrebu ar gyfer y rhaglen ymhellach, ac mae gwaith yn parhau ar y llinell sylfaen ar gyfer costau Carbon ac Ariannol i fesur yn erbyn targedau i'w pennu adeg cyhoeddi'r strategaethau gofod a theithio.

Cyfathrebu

12. Prif elfen gweithgarwch cyfathrebu mis Tachwedd oedd presenoldeb CNC yn COP26, y sioeau teithiol rhanbarthol ac Wythnos Hinsawdd Cymru. Gwnaethom barhau i hyrwyddo'r adroddiad aml-asiantaeth Nature Positive a phrosiectau atebion seiliedig ar natur CNC fel rhan o stondin y grŵp Newid Hinsawdd Rhyngasiantaethol yn COP26 yn Glasgow a thrwy weithio gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i ddatblygu ein gwefan. Gwnaethom hefyd gefnogi uwch gydweithwyr a oedd yn cymryd rhan mewn sesiynau panel drwy gydol y digwyddiad gydag ymgyrch cyfathrebu digidol.
13. Yn ôl y disgwyl, roedd y penderfyniad i wahardd hela trywydd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn uchel ei broffil ac o ddiddordeb i'r cyhoedd, y cyfryngau a rhanddeiliaid. Gan weithio'n agos gyda'r tîm rheoli tir i ddatblygu cynllun cyfathrebu cryf, cawsom sylw cadarnhaol eang i'r penderfyniad yn lleol ac yn genedlaethol a chyrrhaeddiad helaeth ac ymgysylltiad cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cawsom sylw sylweddol hefyd yn sgil hyrwyddo erlyniadau am lygredd a thipio anghyfreithlon.
14. Rydym yn parhau i gynnwys negeseuon am yr argyfwng hinsawdd yn ein cyfathrebiadau am barodrwydd at y gaeaf. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Dywydd i dynnu sylw at bwysigrwydd paratoi ar gyfer gaeaf gwlyb a hyrwyddo'r gwasanaethau digidol ar ein gwefan.

15. Gwnaethom hefyd ymdrin ag ymholiadau parhaus y cyfryngau a Rhyddid Gwybodaeth ar sawl mater gan gynnwys canlyniad ymchwiliad llygredd Llynfi, gweithrediadau cwmpo coed, ansawdd dŵr a digwyddiadau llygredd, a'r gyfres 'I'm a Celebrity, Get Me Out of Here'.
16. Cynhaliwyd ymarfer llifogydd tîm hefyd yn ystod mis Tachwedd i brofi ein prosesau tîm ar gyfer cyfathrebu digwyddiadau ac i roi amgylchedd diogel i aelodau mwy newydd o'r tîm ymarfer a magu profiad. Mae hyn wedi ein helpu i addasu gweithdrefnau ac wedi rhoi hyder i aelodau'r tîm cyn misoedd y gaeaf a digwyddiadau llifogydd tebygol.
17. Rydym yn manteisio ar dueddiadau cymdeithasol ac eleni crëwyd ymgyrch Nadolig lle gwelwyd y Corrach ar y Silff gyda gwahanol dimau ledled Cymru, gan roi cyfle inni dynnu sylw at rywfaint o'n gwaith mewn ffordd fwy ysgafn. Cafodd ymateb cynnes yn fewnol ac yn allanol.

Strategaeth Ddigidol

18. Gyda'r strategaeth ddigidol i Gymru yn ein llywio, bydd strategaeth ddigidol newydd CNC yn canolbwyntio ar ddylunio a darparu gwasanaethau o amgylch anghenion y rhai sy'n eu defnyddio. Rydym wedi bod yn ymgynghori â thimau i helpu i lunio'r strategaeth newydd. Yn y sesiynau gyda Byrddau Busnes, timau a gweminar ar gyfer pob aelod o staff, rydym wedi cael adborth a mewnbwn cadarnhaol i ddechrau ffurfioli cynllun cyflawni. Disgwylir i'r strategaeth a'r cynllun cyflawni terfynol fynd gerbron Bwrdd CNC ym mis Mawrth 2022.

Gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

19. Rydym yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) i edrych ar sut rydym yn gwella ein gwasanaeth gwastraff peryglus. Dyma'r 'prosiect arddangos' cyntaf ar gyfer CNC, lle rydym yn gweithio i'r safonau digidol newydd i Gymru.
20. Trwy ddod ag arbenigwyr mewn rheoli dylunio a chyflawni sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i weithio'n agos gydag arbenigwyr CNC, maent yn cynnal ymchwiliad manwl i'r gwasanaeth presennol, a sut i'w wella, cyn symud i alpha yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r prosiect eisoes wedi cynnal ymchwil gyda defnyddwyr allanol a mewnlol y gwasanaeth gwastraff peryglus. Mae'r tîm yn cynnal sesiynau arddangos a rhannu bob pythefnos (ar agor i bawb) i ddangos sut maent yn gweithio. Cadwch lygad am flogiau ar wefan CDPS a sianeli cyfryngau cymdeithasol CNC.

Materion Strategol

Tasglu Diogelwch Tomenni Glo

21. Sefydlodd Uwchgynhadledd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020 Dasglu Diogelwch Tomenni Glo. Gan fod CNC ei hun yn rheoli safleoedd, a bod ganddo rôl dechnegol, asesu a thrwyddedu allweddol ar unrhyw waith adfer arfaethedig, mae ganddo sedd yn y Tasglu.
22. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Awdurdod Glo nodi safle pob un o'r tomenni glo yng Nghymru a datblygu asesiadau risg cyson ar eu cyfer. Mae'r gwaith hwn wedi gorffen yn ddiweddar, ac mae mapiau o'r safleoedd wedi'u rhannu â CNC. Ymhlith y 2,500 o domenni glo a nodwyd ledled Cymru mae 327 o safleoedd risg uwch, ac mae tua 80 ohonynt yn y categori risg uchaf. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar rai o'r safleoedd risg uwch megis yn Tylorstown ac mae CNC wedi bod yn cynorthwyo'r gwaith hwn ac yn rhoi caniatadau.
23. Ar safle Wattstown, achosodd llithriad gweladwy iawn yn gynnar yn 2021 bryder yn y gymuned leol. Gan weithio gyda'r Awdurdod Glo, Rhondda Cynon Taf, mae staff CNC wedi helpu i adfer y safle'n brydlon. Mae'r profiadau a gafwyd wedi helpu i ddatblygu "Protocol" rhwng CNC, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Glo. Cynhaliwyd gweithdy i gyflwyno staff i'r dull gweithredu. Disgwylir y bydd hyn yn galluogi ymgysylltu cynnar ar y safleoedd risg uwch fel y gall y gwaith ddechrau a gorffen yn gyflym.
24. Ar gyfer safleoedd a reolir gan CNC, rydym yn mabwysiadu'r asesiad risg sydd wedi ei ddatblygu o'r newydd ar gyfer tomenni. Mae'r mapio cysylltiedig a wnaed gan yr Awdurdod Glo wedi nodi 398 o safleoedd wedi'u rhannu'n 238 o domenni rydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli'n gyfan gwbl a 160 arall lle mae rhan o domen ar dir rydym yn ei reoli (gan gynnwys ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol). Mae ein deg safle risg uchaf yn cael eu hailasesu yn erbyn y meini prawf risg newydd hyn i asesu pa waith ychwanegol sydd angen ei wneud ar unwaith i adfer y risg. Mae gennym raglen o waith adfer ar y gweill wedi'i chydlynu drwy'r Tîm Stiwardiaeth Tir a staff Gweithrediadau.
25. Trwy gydol y gwaith hwn, codwyd ymwybyddiaeth mai dim ond un o blith nifer o hen safleoedd diwydiannol sy'n peri risg i'r amgylchedd a phobl yw asedau glofaol. Cydnabuwyd hyn ac rydym yn parhau i bwysu i ehangu'r gwaith ar asedau glofaol (mapio, asesu risg) i gynnwys mwyngloddio (llechi, metelau), cloddio glo brig a chwarelu. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae CNC wedi mynd i'r afael â llithriadau tomenni gwastraff chwareli ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru a'r potensial dybryd o ffrwydradau dŵr pyllau glo ar dir preifat drwy ein rhaglen adfer mwyngloddiau metel.

Bil Amaethyddol Cymru a Chynllun Ffermio Cynaliadwy'r dyfodol

26. Cyhoeddwyd Papur Gwyn ar Fil Amaethyddiaeth y dyfodol y llynedd a chafodd gefnogaeth lawn CNC. Mae'r Chweched Senedd newydd wedi gofyn i'r Bil gael ei

gyflwyno yn rhaglen ddeddfwriaeth ei flwyddyn gyntaf. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen hepgor elfennau allweddol o'r Bil a'u hychwanegu eto maes o law gobeithio.

27. Rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r risgiau sy'n gysylltiedig â hepgor darnau allweddol ac yn cadarnhau ein cefnogaeth i gyflawni cymaint o ddyheadau gwreiddiol y Bil â phosibl. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â Swyddogion i gynnig ein cefnogaeth gan ein bod yn credu bod rhai materion yn hanfodol i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig.
28. Mae gweithredu dulliau newydd o wneud taliadau i ffermydd a rheoli tir yn rhoi'r cyfle gorau i ail-ystyried polisi rheoli tir a chyllid cyhoeddus ar gyfer defnydd tir a rheoli tir ers cenhedlaeth. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn, mae angen i Gymru fabwysiadu ymagwedd integredig flaengar at dir sy'n cwmpasu amaethyddiaeth a choedwigaeth.
29. Yn ein rôl fel Cynghorydd i Lywodraeth Cymru, rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddarparu mewnbwn technegol amserol ar ystod eang o bynciau a materion polisi i gefnogi eu syniadau. Datblygwyd y rhain drwy'r pum egwyddor a ddatblygwyd gyda'r sector (mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o reoleiddio, mesurau gwirfoddol, cyngor ac arweiniad, buddsoddiad ariannol, safonau a chynnwys y farchnad ac arloesedd).
30. Trwy raglen fewnol, rydym yn ymdrin â chwestiynau ac yn dod â materion at sylw Llywodraeth Cymru drwy ddull "Un Llais". Mae hyn yn casglu'r cwestiynau a ofynnwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn tynnu ar farn arbenigwyr CNC i lunio un ymateb awdurdodol. Rydym hefyd yn cynnal seminarau ar bynciau penodol, gan gynnwys staff CNC er mwyn cyfnewid gwybodaeth a dealltwriaeth i gyflwyno ymateb "Un Llais" cynhwysfawr i Lywodraeth Cymru.
31. Rydym wedi cyflwyno adroddiad manwl gyda thystiolaeth i Lywodraeth Cymru yn amlinellu canlyniadau'r gwaith hwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r SFS. Ein cam nesaf yw symud o'r cam "beth sydd angen i ni ei wneud" i "Sut rydym yn ei wneud e".

Mynd i Wraidd y Mater - Coed a Phren - Llywodraeth Cymru

32. Mae ymchwiliad manwl diweddar dan arweiniad y Gweinidog wedi gosod rhaglen heriol o 39 o argymhellion er mwyn cynyddu i'r eithaf y nod o ehangu coetiroedd a'r defnydd o gynhyrchion pren cynaliadwy mewn diwydiant. Cydnabuwyd ansawdd ac amseroldeb mewnbwn CNC gan y Dirprwy Weinidog. Mae gwaith wedi dechrau i gyflawni'r materion hyn yn gyflym, gyda CNC yn gyfrifol am gyflawni nifer o'r argymhellion a chynorthwyo gydag eraill. Mae staff hefyd yn gweithio ar y grwpiau sy'n gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen.

33. Mae CNC yn defnyddio'r cyfleoedd a gyflwynir gan yr ymchwiliad manwl i ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae hyn yn gofyn am ymrwymiad gan bob rhan o CNC i sicrhau'r manteision mwyaf posibl yn sgil creu coetiroedd gan osgoi'r anfanteision a allai danseilio'r dyhead hwn. Bydd hyn yn gofyn am waith ychwanegol i alinio'r ddarpariaeth o fewn y sefydliad (lle mae posibilrwydd o wrthdaro dros y defnydd priodol o dir) ac ymdrin â rhwystrau tybiedig a gwirioneddol i greu coetiroedd a phlannu coed. Bydd alinio'r gwaith hwn â'r gwaith ar ein Datganiadau Ardal yn helpu. Mae angen i ni hefyd gyflwyno'r dystiolaeth a'r mapio, y polisi a'r arweiniad rheoleiddio ynghyd â'r agweddau cyflawni. Mae llawer i'w wneud ar hyn o bryd.

Dau aelod proffesiynol newydd o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig ar gyfer CNC

34. Rwy'n falch iawn o adrodd bod dau aelod o staff wedi ennill statws Proffesiynol yn arholiadau diweddar Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF). Enillodd un aelod o staff Wobr Rhagoriaeth hefyd am ei gyflwyniad, un o ddim ond dwy a ddyfarnwyd eleni. Mae'r ICF yn gorff siartredig cymharol fach gyda dim ond dwy fil o aelodau ond dyma'r unig gorff sy'n gallu rhoi statws siartredig i weithwyr coed proffesiynol yn y DU. Rwyf wedi ysgrifennu at y ddau aelod o staff i'w llongyfarch ar eu llwyddiant.

35. Yr ICF sydd â'r ail nifer fwyaf o aelodau staff CNC o unrhyw gorff proffesiynol yn CNC (ar ôl CIWEM, y Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd) ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i gefnogi ein staff i ennill statws siartredig ar gyfer eu hunanddatblygiad yn ogystal â cheisio rhagoriaeth broffesiynol. Mae o leiaf ugain o aelodau cyswllt ICF yn CNC a ddylai fod yn anelu at fod yn goedwigwyr siartredig, ac mae gweithgor bach yn cael ei sefydlu i roi'r cymorth sydd ei angen ar yr aelodau staff hyn. Gofynnir iddynt gynnwys eu gwaith yn eu Cynlluniau Datblygu Personol (CDP) unigol, a byddwn ni yn ein tro yn rhoi cymorth rheolwyr iddynt drwy ddarparu amser astudio ffurfiol.

Safon Coedwigaeth y DU (UKFS)

36. Mae'r UKFS (y safon gyfeirio ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy) yn cael ei hadolygu'n gynhwysfawr ar hyn o bryd. Bydd y bumed fersiwn yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022. Mae mewnbwn technegol CNC wedi bod yn allweddol i sicrhau bod materion Cymreig wedi cael sylw. Er mwyn sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'r fersiwn newydd, caffaelwyd hyfforddiant ar gyfer 130 o aelodau staff CNC a dau aelod o staff Llywodraeth Cymru i fynychu cyfres gynhwysfawr o weminarau dan arweiniad arbenigwyr yn y DU. Bydd yr hyfforddiant hwn yn dod i ben ym mis Chwefror 2022.

Plâu a Chlefydau

37. Dros y misoedd diwethaf gwelwyd lefelau digynsail o achosion o Ffliw'r Adar mewn poblogaethau adar gwyllt a dofednod, yn enwedig yn Lloegr. Cadarnhawyd tri achos yng Nghymru ac mae Parth Atal Cymru gyfan ar waith. O ganlyniad mae staff CNC yn

gohirio ymweliadau rheolaidd â safleoedd dofednod a magu adar hela ac nid ydynt yn ymweld â safleoedd ac eithrio i ymateb i ddigwyddiadau.

38. Mae achosion wedi'u cadarnhau'n ddiweddar o glefyd coed newydd - *Phytophthora pluvialis* - yn y canolbarth. Mae CNC yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, Forest Research a Llywodraeth Cymru i baratoi ein hymateb i'r haint hwn. Mae'r math hwn o Phytophthora yn effeithio ar ffynidwydd Douglas a hemlog y gorllewin felly mae'n debygol o effeithio ar yr ystad goed a choedwigoedd preifat. Mae swyddogion CNC yn ymwneud â monitro a choladu data a byddant yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i reoli ein hymateb.

Adolygiad Blynyddol o Daliadau Rheoleiddiol

39. Er mwyn cynnal ein cynlluniau codi tâl rheoleiddiol ar gyfer 2022 ymlaen cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben am hanner nos ar 10 Ionawr 2022.

Defnyddiwyd yr ymgynghoriad hwn hefyd i ofyn cwestiynau i helpu i lunio ein dull o ymdrin â chyngor cyn ymgeisio a gwasanaeth cyngor yn ôl disgrisiwn.

40. Roedd yr ymgynghoriad yn fyw ar ein gwefan am 12 wythnos o 5 Hydref 2020. Cyn ymgynghori'n gyhoeddus, gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ein Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau i drafod a chodi ymwybyddiaeth o'n cynigion a oedd yn cynnwys:

- Cynnydd o +2.8% i'r Tâl Uned Safonol (SUC) ar gyfer Echdynnu Dŵr.
- Cynnydd o 21% ar gyfartaledd i Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU.
- Cynnydd chwyddiant o +3% am drwyddedau Rheoleiddio Trwyddedu Amgylcheddol Ansawdd Dŵr.

41. Ar 10 Ionawr, roedd pum ymateb wedi dod i law gan Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Dŵr Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru a'r Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau. Nid ydym wedi derbyn unrhyw wrthwynebiadau penodol i'r newidiadau arfaethedig, ond mae rhanddeiliaid wedi herio'r cynnydd mewn taliadau, gan ein hatgoffa o'r angen i daliadau fod yn dryloyw a theg yn ogystal â phwysigrwydd gallu busnesau Cymru i fod yn gystadleuol. Byddwn yn crynhoi ac yn ystyried yr ymatebion i lunio cynigion terfynol a fydd yn dychwelyd i'w cymeradwyo drwy'r gweithdrefnau llywodraethu perthnasol. Rydym yn bwriadu ceisio cymeradwyaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru cyn lansio unrhyw newidiadau ar 1 Ebrill 2022.

42. O ran ein Hadolygiad Strategol o Daliadau, rydym wrthi'n datblygu ein cynigion ar gyfer diwygio ffioedd ceisiadau am drwyddedau i'w hystyried a'u cytuno drwy gamau llywodraethu cyn cynnal ymgynghoriad ddechrau'r haf, gyda chynllun codi tâl diwygiedig sy'n cynnwys yr elfennau diwygiedig yn cael ei roi ar waith yn hydref 2022.

Y Rhaglen Natur Greadigol

43. Ym mis Medi 2020, llofnododd CNC Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn amlinellu cydweledigaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol. Mae'r bartneriaeth hon bellach ar ffurf y Rhaglen Natur Greadigol, menter 12 mis sy'n darparu:

- **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol:** Cyfle trawsnewidiol i wyth artist greu gwaith newydd sy'n torri ar draws syniadau cyfredol am systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth ar eu pen ac sy'n dangos i bobl bod angen newid ffyrdd o fyw er mwyn lleihau allyriadau.
- **Strategaeth Datgarboneiddio'r Sector Diwylliannol:** Datblygu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd gyda'r nod o nodi meysydd cydweithredu i gefnogi'r sector creadigol i symud tuag at fod yn garbon sero-net.
- **Strategaeth Gyfathrebu Natur Greadigol:** Defnyddio sgiliau ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu cynulleidfaoedd Cyngor y Celfyddydau i gael mwy o bobl i gymryd rhan yn y sgwrs am ddyfodol ein hamgylchedd naturiol.

44. Cefnogir yr allbynnau hyn gan Reolwr y Rhaglen Natur Greadigol ac maent yn rhan o Raglen Gelfyddydau ehangach o fewn CNC, sy'n datblygu gwell dealltwriaeth o sut y gallai celf a diwylliant chwarae rhan fuddiol yng ngwaith CNC, yn enwedig o ran ein helpu i gael pobl i ymwneud â'r materion allweddol sy'n ein hwynebu, megis yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Ymgynghoriad DEFRA ar ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Tirwedd (Adolygiad Glover)

45. Yn 2018, comisiynodd DEFRA Julian Glover i gynnal adolygiad o Dirweddau Dynodedig yn Lloegr. Cyhoeddodd DEFRA ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Tirweddau yn ffurfiol fel ymgynghoriad ar 15 Ionawr 2021.

46. Yn gryno, mae cynigion DEFRA yn cynnwys:

- Cryfhau diben canolbwyntio mwy ar adfer natur ac ehangu diben hamdden Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ar gyfer iechyd a lles.
- Cryfhau'r cynlluniau rheoli ar gyfer cyflawni i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn gysylltiedig â thargedau cenedlaethol.
- Gwell llywodraethu ar gyfer Tirweddau Dynodedig a rhoi ffocws o'r newydd i Natural England ar weithgarwch tirwedd.
- Cynigion i gynyddu amrywiaeth ymwelwyr.
- Gwella effaith y dynodiad drwy gryfhau'r ddyletswydd sylw dyledus ar gyrf cyhoeddus a rhoi statws ymgynghorai statudol i AHNE mewn perthynas â chynllunio.

47. Cynhaliodd Cymru ei hadolygiad ei hun o Dirweddau Dynodedig gydag Adroddiad Marsden (2015). Fe'i dilynwyd gan archwiliad manwl o rai o themâu allweddol yr

adolygiad gan Grŵp Tirwedd Cymru, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas. Roedd yr holl waith hwn yn llywio safbwynt Llywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn 'Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol' a gyhoeddwyd yn 2018.

48. Er bod cynigion DEFRA yn ymwneud yn bennaf â Lloegr, bydd Llywodraeth Cymru, gyda chynngor gan CNC, yn asesu ac yn ystyried y canlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i Gymru. Yn benodol, mae'r cynigion yn ymwneud â newid deddfwriaethol i ddarparu dibenion cryfach yn y gyfraith ar gyfer tirweddau cenedlaethol, ynghyd â dibenion cryfach ar gyfer AHNE, gan ystyried y ddeddfwriaeth sylfaenol a rennir rhwng Cymru a Lloegr.
49. Bydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig ar 1 Chwefror yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr ymgynghoriad gan gynnwys dadansoddiad o'r goblygiadau posibl i Raglen Tirweddau Dynodedig Integredig CNC a'r prosiect i ystyried yr ymrwymiad yn 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Materion Gweithredol

Trosglwyddo Canolfan Ymwelwyr Garwnant i Forest Holidays

50. Yn dilyn llwyddiant y safle Forest Holidays ym Meddgelert ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn 2018, mae ein partneriaeth â Forest Holidays wedi ehangu i gynnwys safle Canolfan Ymwelwyr Garwnant ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNP). Bydd y 40 o gabanau pren, a gynlluniwyd i fod yn gydnaws â'r amgylchedd coetir, yn rhoi budd i'r sector twristiaeth o fewn y Parc a chymunedau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, gan gyfrannu at fwy o swyddi yn yr ardal. Mae'r cytundeb cydweithio hwn rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn bosibl diolch i gymorth parhaus gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cynghorau Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, a Dŵr Cymru, fel uwch landlordiaid y safle coetir hwn.
51. Bydd y trefniadau mynediad i'r cyhoedd presennol yn parhau fel ag y maent a bydd y cynnig i ymwelwyr ar y safle yn cael ei wella. Bydd ffynhonnell incwm uwch i CNC yn cyfrannu at fanteision rheoli ehangach yr ystâd goedwig gyhoeddus a bydd y datblygiad yn creu tua 25 o swyddi ar y safle ochr yn ochr â swyddi cysylltiedig yn yr ardal ar gyfer gwasanaethau cyflenwi i Forest Holidays. Mae Forest Holidays eisoes yn gweithredu un ar ddeg o leoliadau ledled y DU yn llwyddiannus, pob un wedi'i leoli mewn lleoliadau coetir hynod sensitif ar goetir a reolir gan y wladwriaeth, gyda phedwar safle wedi'u lleoli mewn Parciau Cenedlaethol.
52. Cafodd y dogfennau cyfreithiol eu selio gan Weinidogion Cymru a throsglwyddwyd y safle'n gyfreithiol ar 10 Ionawr.

Gwelliannau Diogelwch i Gronfa Ddŵr Llyn Tegid

53. Rydym wedi dechrau gwaith diogelwch mawr ar argloddiau Llyn Tegid o dan y Ddeddf Diogelwch Cronfeydd Dŵr. Bydd y gwaith yn cael ei wneud drwy gydol 2022, a bydd angen cau llwybrau troed er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gyfeirio pobl at lwybrau eraill sydd ag arwyddion. Mae'r gwaith i gryfhau'r arglawdd yn golygu cael gwared ar 300 o goed a oedd wedi hunan-hadu ac sy'n gwanhau glannau'r llyn.
54. Cafwyd ymgynghoriad lleol helaeth ers 2016 i sicrhau bod y gwaith yn achosi cyn lleied o darfu â phosibl ac i wneud y gorau o fanteision eraill megis gwelliannau i gynefinoedd a chyfleusterau hamdden. Am bob coeden sy'n cael ei chwmpo, byddwn yn plannu tair coeden yn lleol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Rheilffordd Llyn Tegid i ymgorffori rhan o'u hestyniad arfaethedig yn y gwaith, gan osgoi unrhyw effaith ar dymor chwarae'r clwb rygbi gerllaw.
55. Rydym wedi cyrraedd cam sensitif o'r gwaith, gyda chlririo coed a chau llwybrau troed ar y gweill. Mae'r gymuned leol yn gefnogol i'r gwaith, ond mae perygl o wrthwynebiad ehangach o hyd. Rydym yn cynhyrchu diweddariadau misol i'r gymuned, yn mynychu cyfarfodydd cynghorau tref lleol ac yn darparu deunyddiau gwybodaeth ar y safle. Mae staff ar gael i gwrdd â phobl yn ôl yr angen, gyda gwasanaeth dwyieithog ar gael drwy'r amser. Mae gennym fideo esboniadol dwyieithog am y gwaith a pham mae ei angen ar wefan CNC hefyd.

Datblygiadau Masnachol Cynaliadwy

Gwersylla

56. Mae Forest Holidays a'r holl randdeiliaid wedi llofnodi ac mae cytundeb Garwnant bellach yn fyw. Rydym yn gwneud cynnydd da gyda Camping in the Forest hefyd, er bod y cytundeb yn cael ei oedi rhyw ychydig gan gymhlethdod trosglwyddo asedau'r Alban a Lloegr. Er mwyn paratoi ar gyfer dychwelyd yr hawliau, rydym yn adolygu'r Ystad ar gyfer safleoedd gwersylla posibl, fel y gallwn benderfynu wedyn sut yr hoffem ddefnyddio'r hawliau ar ôl iddynt gael eu dychwelyd.

Llwybr Arfordir Cymru

57. Mae'r tîm Masnachol wedi cytuno i helpu i hwyluso siop nwyddau ar-lein i ddathlu deng mlynedd ers agor Llwybr Arfordir Cymru. Bydd y tendr yn cael ei gyhoeddi'n fuan er mwyn i'r gwaith ddechrau ym mis Ebrill 2022, a chaiff ei fonitro i benderfynu ar y potensial i barhau i gynnig siop ar-lein a nwyddau ar hyd y Llwybr.

Busnes Mewnol

ISO45001:2018

58. Cafodd CNC gadarnhad ychydig cyn gwyliau'r Nadolig ein bod wedi cofrestru i ISO 45001:2018. Safon yw hon sydd wedi'i chynllunio i atal anafiadau ac afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith ac i ddarparu gweithleoedd diogel ac iach drwy ddarparu

fframwaith lle gallwn reoli a gwella'n barhaus sut rydym yn gweithredu iechyd a diogelwch.

59. Bydd bodloni'r safon hon yn ein helpu i sicrhau lles, iechyd a diogelwch hirdymor pawb - staff, ymwelwyr, contractwyr a chwsmeriaid. Dylem fod yn falch o'r cyflawniad, mae llawer o sefydliadau'n methu â chyrraedd y safon, gan ei bod yn safon anodd ei chyflawni a'i chynnal.

60. Mae dau gam gweithredu y mae angen mynd i'r afael â nhw gyda chynlluniau gweithredu ategol, a chânt eu harchwilio yn yr holl ymweliadau archwilio sydd i ddod er mwyn sicrhau ein bod yn gwella ac yn cyflawni ein gofynion cyfreithiol. Diolch i bawb a roddodd help llaw ac a fu'n rhan o'r broses archwilio ac am eu cymorth a'u cefnogaeth eleni.

Edrych Ymlaen

- Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 1 Chwefror
- Y Pwyllgor Cyllid – 10 Chwefror
- Galwad Diweddarau'r Bwrdd – 16 Chwefror
- Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau - 2 Mawrth
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 10 Mawrth
- Cyfarfod Bwrdd – 23 a 24 Mawrth (wyneb yn wyneb ger Caerdydd)



Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)
Cyfeirnod y Papur:	22-01-B08
Noddir y Papur gan:	Catherine Brown – Cadeirydd ARAC
Cyflwynir y Papur gan:	Catherine Brown

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021. Gall cofnodion y cyfarfod fod ar gael i unrhyw Aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Isod, amlygir y materion y mae Cadeirydd ARAC yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt.

Diweddariad

Diweddariad Cyllid

3. Rhoddwyd gwybod i ARAC am broblem bosibl yn deillio o archwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch yr atebolrwydd ariannol ynghlwm wrth gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr a chydymffurfio â methodoleg Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 9. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw effaith ar gyfrifon CNC ar gyfer 2021/22 o ganlyniad i'w weithrediad.
4. Darparodd ARAC adborth ar Strategaeth Gwrth-dwyll 2022-26.

Diweddariad Archwilio Mewnol

5. Adolygodd y Pwyllgor bum Adroddiad Archwilio Mewnol a dau Adroddiad Dilynol. Roedd yr Adroddiad Archwilio Pensiynau a'r Adroddiad Archwilio Asedau Sefydlog yn cynnig barn sicrwydd sylweddol. Roedd Adolygiad Cynnydd yr Adroddiad Llifogydd, Adroddiad Archwilio Dirgryniad Llaw a Braich ac Adroddiadau Archwilio Cyfrifon Derbyniadwy i gyd yn cynnig barn gymedrol.

6. Mae ARAC wedi gofyn am eglurhad ar rywfaint o'r cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon Derbyniadwy i sicrhau nad oes cynnydd yn y risg o ddyled wael ac awgrymodd y gallai'r Pwyllgor Cyllid ystyried y maes hwn.
7. Dangosodd Adroddiadau Dilydol Rheoli Prosiectau a Rhaglenni a Gwerthiannau Pren fod cynnydd rhesymol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion yr archwiliadau gwreiddiol.

Prosiect Rheoli Contractau

8. Derbyniodd ARAC ddiweddariad ar statws y Prosiect Rheoli Contractau. O ystyried y lefel uchel o risg a oedd yn parhau yn y maes gwariant materol iawn hwn, hyd nes bod y tîm ar waith a ffyrdd o weithio wedi'u hymgorffori, rydym wedi gofyn i grynodedb gael ei gynhyrchu ar gyfer ARAC mis Mawrth 2022, gan nodi'r gwahanol elfennau o risg a'r pethau sy'n cael eu gwneud i liniaru yn erbyn y meysydd risg allweddol.
9. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd briffio'r Bwrdd ar y risgiau sy'n weddill ac unrhyw gynlluniau lliniaru, fel eu bod yn deall yn llawn y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu yn y maes hwn.

Llywodraethu Gwerthiant Pren

10. Roedd y Pwyllgor yn falch o'r cynnydd a wnaed o ran lleihau'r risg yn y maes hwn. Nid yw ARAC bellach o'r farn bod angen derbyn diweddariadau cynnydd rheolaidd ynglŷn â'r mater hwn ac yn hytrach bydd yn adolygu'r maes gwaith fel rhan o'r rhaglen archwilio mewnol wrth symud ymlaen.

Sicrwydd Risg Corfforaethol

11. Derbyniodd ARAC Adroddiad Risg Blyneddol a diweddariad Risg Chwarterol, a chytunodd ar gynnig ar sut y byddai'r Pwyllgor yn ymgysylltu â Risg wrth symud ymlaen.

Sesiwn Gaeedig

12. Cynhaliodd yr Aelodau sesiwn gaeedig gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol, lle trafodwyd yr ymatebion gan staff a fynychodd ARAC dros y flwyddyn ddiwethaf, fel rhan o'n Hadolygiad Effeithiolrwydd Blyneddol. Rydym wedi gofyn i archwilwyr mewnol ac allanol am eu sylwadau hefyd, fel y gall y Pwyllgor fyfyrion'n briodol ar: yr adborth a dderbyniwyd; ein datblygiad yn gyffredinol.
13. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r aelodau ystyried yr awgrym eu bod yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am feysydd penodol o waith ARAC wrth symud ymlaen.



Papur y Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y Papur:	22-01-B09
Noddir y Papur gan:	Syr David Henshaw – Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynir y Papur gan:	Syr David Henshaw

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021.

Diweddariad

2. Yn ogystal ag adolygu perfformiad ariannol CNC a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyllideb a chynllunio busnes ar gyfer 2022-23, trafododd y Pwyllgor Cyllid hefyd: yr Ymarfer Sylfaenol; blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru; rôl CNC o ran cyflawni ei huchelgais; yr heriau a wynebir.

Diweddariad y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a'r Prosiect Rheoli Contractau

3. Diweddarwyd y Pwyllgor Cyllid ar waith y Swyddfa Rheoli Rhaglenni.
4. Darparwyd trosolwg hefyd o'r Prosiect Rheoli Contractau, sy'n faes risg uchel i'r sefydliad. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei rhoi i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2022 ynghylch sut y byddai unrhyw fanteision ehangach, megis gwerth cymdeithasol, yn cael eu cofnodi.

Goruchwylio Llywodraethu Gwerthiant Pren

5. Roedd cynnydd da yn parhau i gael ei wneud o ran mynd i'r afael â materion llywodraethu Gwerthiant Pren.

Rheoli Risg - Adroddiad at Wraidd y Mater ar Risg Strategol (RS) 04 (Pennu Cyfeiriad Strategol)

6. Cynigiodd y Pwyllgor adborth amrywiol ar y canlynol: mynegiant RS04; galluogwyd presennol; a chymau gweithredu a gynlluniwyd, er mwyn sicrhau bod y Risg hon yn ddigon heriol a bod unrhyw gamau lliniaru yn helpu i gyflawni'r sgôr risg targed.

Diweddariad ar grantiau

7. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid i nodyn gael ei baratoi ar gyfer Cadeirydd Bwrdd CNC ynghylch datblygu un system Grantiau yng Nghymru, gan ddangos sut y gellid cyflawni'r maes gwaith hwn yn wahanol drwy drefn fwy effeithlon, cyn codi hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Llywodraethu'r Pwyllgor Cyllid

8. Cytunodd y pwyllgor ar y trefniadau ar gyfer Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol y Pwyllgor Cyllid. Cynhelir arolwg gydag aelodau a mynychwyr rheolaidd ac achlysurol. Yna, bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y cyfarfod nesaf ar 10 Chwefror 2022.
9. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid yn cael ei ailystyried hefyd, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn darparu'r lefel briodol o gymorth i'r Bwrdd.

Papur y Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC)
Cyfeirnod y Papur:	22-01-B21
Noddir y Papur gan:	Julia Cherrett – Cadeirydd FRMC
Cyflwynir y Papur gan:	Julia Cherrett
Diben y Papur	Gwybodaeth
Argymhelliad	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod yr FRMC a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022. Gellir darparu cofnodion y cyfarfod i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Isod, amlygir y materion y mae Cadeirydd yr FRMC yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt.

Diweddariad

Rhaglen Weithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd

3. Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Weithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd. Nodwyd y statws Coch Oren Gwyrdd (RAG) fel Oren, gan adlewyrchu'r her o ran recriwtio, a thrafodwyd hyn gan y Pwyllgor. Disgrifiwyd y camau sy'n cael eu cymryd i fynd ati i recriwtio mewn ffordd wahanol, a thynnwyd sylw at waith gyda phrifysgolion, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Gofynnwyd am fanylion y swyddi a lenwyd, ynghyd â'r rhai sy'n wag o hyd, gan aelodau'r Pwyllgor. Trafodwyd parodrwydd ar gyfer y digwyddiad llifogydd nesaf.
4. Rhannwyd canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol, a oedd wedi arwain at sgôr Cymedrol. Nodwyd pwyntiau cadarnhaol ynghylch y strwythur llywodraethu cryf a nododd y Pwyllgor fod yr argymhellion Archwilio i gyd wedi'u derbyn gan Swyddogion. Darparwyd

diweddariad ar benderfyniad Bwrdd y Rhaglen i beidio â chau'r Rhaglen Weithredu yn gynnar.

Adolygiad Risg Strategol – RS02 Rheoli Asedau

5. Darparwyd trosolwg o'r prif asedau strwythurol a gynhwyswyd o dan Risg Strategol 02 a disgrifiwyd y dull presennol o oruchwylio'r rhain. Ystyriodd y Pwyllgor RS02 yn fanwl a thrafododd bwysigrwydd ystyried dull strategol hirdymor o reoli perygl llifogydd, buddsoddi, targedau a mesurau. Cytunwyd bod angen herio'r meddylfryd ar hyn a bod angen trafodaeth strategol yn y Bwrdd. Byddai cyfarfod arbennig ar gyfer aelodau'r FRMC yn cael ei drefnu ym mis Mawrth i ystyried y materion yn fanylach.

Y Rhaglen Gyfalaf

6. Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor gwestiynau am y broses ar gyfer cynnwys prosiectau ar y rhestr prosiectau a enwir. Cytunwyd y byddai trafodaeth fanylach ar y broses flaenoriaethu yn cael ei chynnal yn y cyfarfod nesaf. Cymeradwyodd yr FRMC y Cynllun Tymor Canolig Rheoli Perygl Llifogydd a'r amrywiannau ers y cyfarfod blaenorol.

Argymhellion Drafft Is-bwyllgor Adnoddau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCEC)

7. Disgrifiwyd cyflwyniad ar rôl yr FCEC o ran darparu cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru a chwmpas Is-bwyllgor Adnoddau'r FCEC. Roedd disgwyl ymgynghoriad ar argymhellion yr Is-bwyllgor ar ddiwedd mis Ionawr a gwahoddwyd ymateb gan CNC. Cytunodd Cadeirydd yr FRMC a'r Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd y byddent yn cyfarfod i ystyried ymateb i'r ymgynghoriad unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Cynllunio Sgiliau/Olyniaeth

8. Edrychodd yr FRMC yn fanwl ar y gwaith ar gynllunio sgiliau ac olyniaeth mewn perthynas â Rheoli Perygl Llifogydd. Darparwyd cyflwyniad ar y pum maes allweddol sy'n cael eu datblygu. Trafodwyd y gwaith parhaus gyda phrifysgolion a datblygu modiwl Rheoli Perygl Llifogydd penodol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y gwaith sy'n cael ei wneud ond roedd yn cydnabod yr her barhaus y mae recriwtio, cadw a datblygu yn ei chyflwyno i CNC ac awdurdodau llifogydd eraill.

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15

9. Nodwyd bod y dyddiad gweithredu ar gyfer TAN15 wedi'i ohirio gan Lywodraeth Cymru tan fis Mehefin 2023 er mwyn caniatáu mwy o amser i ystyried goblygiadau'r gwaith mapio wedi'i ddiweddarau. Disgrifiwyd effaith yr oedi ar lwythi gwaith y tîm a'r camau lliniaru a oedd yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sgysiau ar y mater datblygu yng nghyd-destun y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Ardrethi ac Ardollau Ardaloedd Draenio Mewnol

10. Darparwyd y cefndir i'r Ardaloedd Draenio Mewnol a throsolwg o'r trefniadau sy'n ymwneud â'r ardrethi a'r ardollau. Trafododd yr FRMC y newidiadau arfaethedig a'r trefniadau codi tâl. Ystyriwyd pwysigrwydd y safonau gwaith a nodwyd bod disgwyl i

adroddiad Archwilio Mewnol gael ei gyhoeddi. Rhoddodd yr FRMC gymeradwyaeth i'r praeceptau arfaethedig, yr ardrethi draenio a'r ardollau arbennig ar gyfer 2022-23 ar gyfer yr Ardaloedd Draenio Mewnol a fyddai'n cael eu cyflwyno i Gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr i'w cymeradwyo.

Adolygiad Effeithiolrwydd yr FRMC

11. Rhoddodd yr FRMC adborth ar ddyluniad rhai o'r cwestiynau yn yr Holiadur Adolygu Effeithiolrwydd a chytunodd i'r cynigion yn amodol ar y gwelliannau a awgrymwyd.

Eitemau Gwybodaeth/Unrhyw Fater Arall

12. Nodwyd diweddariadau ysgrifenedig ar Gronfeydd Dŵr a Rheoli Perygl Llifogydd.

13. Ystyriwyd y ffocws ar Domenni Glo a Diogelwch ochr yn ochr â Dŵr a Llifogydd, ynghyd â'r gyllideb sydd ar gael.



Teitl y Papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC)
Cyfeirnod y Papur:	22-01-B10
Noddir y Papur gan:	Zoe Henderson - Cadeirydd PaRC
Cyflwynir y Papur gan:	Zoe Henderson

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	I nodi'r diweddariad

Pwnc

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod PaRC ar 10 Rhagfyr 2021. Gellir sicrhau bod cofnodion y cyfarfod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Nodir isod y materion y mae angen i holl aelodau'r Bwrdd wybod amdanynt ym marn Cadeirydd PaRC.

Diweddariad

Gwybodaeth Reoli / Diweddariad Lles, Iechyd a Diogelwch (WHS) dros dro

3. Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r Wybodaeth Reoli a Lles, Iechyd a Diogelwch dros dro ar ISO 45001.
4. Trafodwyd swyddi gwag yn CNC a chadarnhawyd bod 373 ohonynt. Trafododd y Pwyllgor beryglon swyddi gwag ac absenoldeb yn ymwneud ag iechyd meddwl, a byddai'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
5. Derbyniwyd sgôr Cymedrol ar gyfer Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich (HAVS). Roedd hyn yn rhan o gylch gwaith tîm WHS bellach; mae Cynllun Gweithredu ar waith ac mae gwaith ar y gweill ar yr argymhellion.

Deall achosion sylfaenol marwolaethau ar Ystad CNC

6. Cyflwynwyd papur i PaRC a oedd yn ystyried y trosolwg o'r damweiniau angheuol ar Ystad CNC a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r damweiniau hyn. Cytunodd y Pwyllgor fod unrhyw farwolaeth ar dir CNC yn un yn ormod, ac mae'n croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu'r dull o ymdrin â diogelwch coedwigaeth er mwyn sicrhau

bod popeth yn cael ei wneud i atal damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith ar Ystad CNC yn y dyfodol.

Defnyddio Penodiadau Cyfnod Penodol

7. Darparwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor ar Benodiadau Cyfnod Penodol (FTAs) yn CNC, diffiniad ohonynt a chefnidir.
8. Trafododd aelodau'r Pwyllgor y dull gweithredu ar gyfer swyddi a ariennir gan grantiau yn y trydydd sector. Ystyriwyd y gallai'r dull hwn fod yn llwyddiannus i CNC hefyd. Nodwyd bod swyddi FTA yn creu aneffeithlonrwydd. Byddai angen mynegi cynnig CNC yn glir ac ystyried symud tuag at gyfrif pennau parhaol ychwanegol er mwyn cadw sgiliau.

Strategaeth Pobl

9. Cyflwynwyd diweddariad i PaRC am y Strategaeth Pobl yn dilyn trafodaethau'r Bwrdd Pobl, y Tîm Gweithredol, a chydag aelodau Pwyllgor PaRC. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor y gwaith ar y Strategaeth. Cwestiynwyd yr anghydbwysedd rhwng cyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai, a chytunwyd bod angen gwneud mwy i sicrhau cydbwysedd gwell rhwng y partïon. Argymhellwyd y byddai angen dangosyddion ansoddol, er enghraifft, yn ymwneud â chryfder a hyder staff i wneud penderfyniadau.

Diweddariad chwe mis o Gynllun y Gweithlu

10. Cyflwynwyd diweddariad i PaRC am Gynllun y Gweithlu, sydd bellach yn ystyried rhai o'r problemau sy'n wynebu'r farchnad lafur ar hyn o bryd a'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio.
11. Argymhellodd aelodau'r Pwyllgor y dylid adolygu geiriad adran 'Gweithlu Presennol' Cynllun y Gweithlu yn ymwneud â'r gweithlu sy'n heneiddio. Mae PaRC yn cefnogi'r buddsoddiad mewn systemau electronig a fyddai'n hwyluso gwaith cynllunio'r gweithlu ac yn lleihau llwyth gwaith staff.

Gwaith Strategaeth Cwsmeriaid a Blaenoriaethu Rhanddeiliaid

12. Darparwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn rhoi diweddariad ar weithgarwch y Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu.

Rhaglen Adfywio

13. Rhoddwyd diweddariad i PaRC am statws RAG (Coch, Oren, Gwyrdd) y rhaglen, sydd â statws Coch ar hyn o bryd. Mae yna rai problemau sylfaenol yn ymwneud ag adnoddau; fodd bynnag, roedd rôl Rheolwr y Rhaglen yn barhaol bellach, ac roedd cyfweiliadau ar gyfer y rôl i fod i gael eu cynnal yn y flwyddyn newydd.
14. Awgrymodd aelodau'r Pwyllgor fod angen bod yn ofalus wrth wneud newidiadau mawr i'r seilwaith, gan awgrymu y dylid aros i weld y newid hirdymor mewn agweddau staff at weithio gartref. Codwyd pryderon am ôl troed carbon gweithio gartref. Roedd treialon gweithio hybrid wedi'u gohirio oherwydd sefyllfa Covid ar hyn o bryd.

Diweddariad am Atebolrwydd y Cyflogwr / Atebolrwydd Cyhoeddus

15. Derbyniodd PaRC drosolwg cryno o'r diweddariad blynyddol am hawliadau atebolrwydd y cyflogwr. Nodwyd bod nifer yr hawliadau yn llai nag arfer. Roedd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer rheolwyr sy'n ymdrin ag achosion.

Adroddiadau Archwilio Mewnol

16. Adolygodd y Pwyllgor ddau Archwiliad Mewnol a gwblhawyd yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd yr archwiliad Pensiynau wedi derbyn sicrwydd Sylweddol ac roedd yr archwiliad Dirgryniad Llaw a Braich (HAVS) wedi derbyn sicrwydd Cymedrol. Byddai camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym ond roedd angen dangos i'r Archwiliad Mewnol eu bod wedi'u hymgorffori. Awgrymwyd bod angen egluro hyn yn yr argymhellion ar gyfer camau gweithredu. Cynigiodd aelodau'r Pwyllgor y dylid rhannu'r hyn a ddysgir trwy ddulliau cyfathrebu mewnol.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

17. Derbyniodd PaRC ddiweddariad am ddatblygu 'Pawb Gyda'n Gilydd', Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth CNC. Mae'r Pwyllgor yn hapus gyda'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y Strategaeth ac yn canmol y dull gweithredu cadarnhaol.

Arolwg Staff

18. Derbyniodd PaRC ddiweddariad am yr Arolwg Staff. Nod yr Arolwg Staff arfaethedig fyddai helpu i ddeall profiad gweithwyr cyflogedig ac ymgorffori gwerthoedd CNC ymhellach. Cefnogodd y Pwyllgor yr argymhelliad yn y papur.

Diweddariad am Bolisïau Pobl

19. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys y papur. Darparodd y Prif Weithredwr ddiweddariad am ddyfarniad McCloud ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Trafodwyd goblygiadau hyn.

Adolygiad Effeithiolrwydd Blynyddol y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

20. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys y papur a chytunodd i'r argymhelliad arfaethedig.

Unrhyw Fater Arall

21. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhelliad ym mhapur Polisi Dewisol y CPLIL (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

Arddangos y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)

22. Derbyniodd PaRC gyflwyniad ar y system CRM. Nododd PaRC bwysigrwydd sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei weld ar y system CRM, yn enwedig mewn perthynas â chysylltiadau aelodau'r Bwrdd â rhanddeiliaid, ac argymhellodd y dylid rhannu'r cyflwyniad mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

Papur y Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC
Cyfeirnod y Papur:	22-01-B11
Noddir y Papur gan:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynir y Papur gan:	Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl
Diben y Papur:	Craffu
Argymhelliad	Y Bwrdd i gymeradwyo Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC

Mater

1. Rydym wedi bod yn datblygu Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC, sy'n nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y 3 blynedd nesaf (hyd at 2025). Ar ôl gwneud llawer iawn o waith, rydym bellach am i'r Bwrdd gymeradwyo ein strategaeth ddiwygiedig.

Cefndir

2. Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Bwrdd i ymrwymo i Amcanion Cydraddoldeb a Rennir ar draws y sector cyhoeddus ac y dylem ddatblygu cynllun mwy penodol ar gyfer CNC, wedi'i deilwra i'n blaenoriaethau a'n gwerthoedd penodol ni fel sefydliad. Aethom ati i sefydlu grŵp llywio, yn cynnwys amryw o aelodau'r Bwrdd, i helpu i lywio ein gwaith, ac rydym wedi ymgymryd ag amryw o ddarnau o waith i lywio ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.
3. Arweiniodd cam cyntaf y gwaith hwn, a gyflawnwyd rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2021, at ddatblygu adroddiad sylfaenol a chynllun gweithredu a ddatblygwyd gyda mewnbwn gan ymgynghorwyr, Diverse Cymru. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar adolygiad pen desg, arolwg ar-lein a grwpiau ffocws, yn cynnwys staff yn ogystal â rhanddeiliaid allanol.
4. Gyda mewnbwn gan y Grŵp Llywio, aethom ymlaen i ail gam y gwaith a oedd yn cynnwys sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sy'n cynnwys trawstoriad o staff o bob rhan

o'r sefydliad, i adolygu canfyddiadau'r cam cyntaf a nodi'r blaenoriaethau allweddol y dylai CNC ganolbwyntio arnynt mewn perthynas ag agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dros y tymor byr i ganolig. Yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, cynhaliwyd pum gweithdy gyda'n grŵp staff. Roedd y gweithdai hyn yn ein galluogi i weithio ar Weledigaeth y staff ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn CNC, adolygu canfyddiadau cam cyntaf y gwaith, gan gynnwys unrhyw fylchau penodol; ac yna canolbwyntio ar ddatblygu barn gyfunol ynghylch yr hyn y dylai CNC ganolbwyntio arno nesaf mewn perthynas â'r agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

- Ochr yn ochr â hyn, gofynnwyd am adborth ychwanegol gan randdeiliaid ynghylch ein hymagwedd at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd yr ymatebion yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys croesawu a chefnogi'r gwaith ynghlwm wrth Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; y ffordd yr ystyrir bod CNC yn gweithio gyda chyrrff a sefydliadau mwy traddodiadol a'r ffaith mai un o'r heriau i sector yr amgylchedd yn fwy eang yw ymgysylltu a chynnwys yn ehangach a sut y gallai hyn fod yn allweddol i agor mwy o ddrysau; pwysigrwydd edrych ar yr agenda hon drwy lens economaidd-gymdeithasol; y cysylltiad agos rhwng rhai o'r materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw a materion sy'n ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid a chyfranogiad.

Crynodeb

- Mae amryw o wahanol gynlluniau a gweithgareddau sy'n berthnasol i asesiad o'n blaenoriaethau mewn perthynas â materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r rhain wedi'u datblygu a'u llywio gan drafodaethau cymdeithasol ehangach ynghylch materion fel hil a Black Lives Matter, materion trawsryweddol a hawliau LHDT ac yn erbyn cefndir o drafodaeth gyhoeddus, dadleuon ac anghytundebau cynyddol ymrannol ynghylch terfynau rhyddid mynegiant a newidiadau cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o Covid a Brexit. Mae trafodaethau ehangach, yn enwedig o fewn y sefydliad, yn mynd rhagddynt o ran ehangu ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol yn ein gwaith, yn enwedig cymunedau mwy agored i niwed a difreintiedig.

Y Dull Gweithredu

- Mae'r ystod o faterion sy'n cael eu cwmpasu gan gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch yn eang ac yn amrywiol, ac maent wedi'u cydblythu â'n diben a'n gwerthoedd fel sefydliad. Mae ein gwaith ar y prosiect wedi ceisio, gyda chanlyniadau cymysg, cynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad yn ogystal â rhanddeiliaid allanol, i helpu'r ddau i ddeall ein sefyllfa fel sefydliad, yn ogystal â'n blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Mae gennym ddealltwriaeth 'sylyfaenol' dda o'n sefyllfa ni fel sefydliad ac mae llawer o'r awgrymiadau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewnol yn adlewyrchu ac yn adeiladu ar hynny.
- Ar ddechrau dau gam y prosiect mewnol, pwysleisiwyd pwysigrwydd edrych ar agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn ystyr eang a oedd yn cwmpasu holl bobl a chymunedau Cymru. Yn yr ail gam, trafodwyd gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fanteision bod yn sefydliad gwirioneddol amrywiol a chynhwysol a sut y byddai hynny'n ein galluogi i gyflawni ein diben craidd – rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Atgyfnerthodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr agwedd hon yn ei gasgliadau – bod mabwysiadu'r ymddygiadau cynhwysol cywir ac, yn benodol, bod yn agored i amrywiaeth meddwl, yn hanfodol i ni wrth ddatblygu fel sefydliad. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r gwaith sydd gennym ar y gweill mewn perthynas â'n Strategaeth Cwsmeriaid, ein Strategaeth Pobl newydd a'r gweithgareddau sydd gennym ar y gweill i ymgorffori ein gwerthoedd ymhellach, a sut rydym yn datblygu ac yn cyflwyno polisiau ar lawr gwlad, o ddarnau polisi eang fel Datganiadau Ardal i fentrau ac ymyriadau unigol fel rhan o Lle.

9. O ystyried yr uchod, rydym wedi datblygu strategaeth a chynllun sy'n gryno, yn cael ei fynegi o safbwynt ein gwerthoedd ac mae hefyd yn hollgynhwysol o ran agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Argymhelliad

10. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd i'w gweld yn Atodiad 1.

Risgiau Allweddol

11. Os nad oes gennym adnoddau priodol ar waith, mae perygl sylweddol y byddwn yn methu â gweithredu'r strategaeth hon. Ar hyn o bryd, mae'r tîm parhaol yn 0.8 cyfystyr ag amser llawn, gyda'r rôl wedi'i rhannu rhwng hyn a'r Gymraeg. Yn seiliedig ar hyn, mae'n annhebygol y bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo ac y bydd staff yn colli ffydd yn CNC.
12. Os na fyddwn yn dod yn sefydliad mwy amrywiol a chynhwysol, mae perygl y byddwn yn cyfyngu ar ein cyrhaeddiad a'n heffeithiolrwydd o ran cyflawni ein diben – rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hon wedi bod yn thema bwysig i'n gwaith dros y naw mis diwethaf a bydd angen ymhelaethu arni yn y Cynllun.
13. Mae perygl o niwed i enw da os nad oes gennym gynlluniau credadwy neu gynlluniau wedi'u blaenoriaethu ar waith, neu os nad oes digon o ymgysylltiad â'r agenda hon ymhlith uwch staff. Bydd rhoi Cynllun penodol i CNC ar waith sydd â champau gweithredu clir sy'n berthnasol i uwch-arweinwyr (Bwrdd a Staff) yn mynd i'r afael â'r risg hon.
14. Os na fyddwn yn integreiddio ein hamcanion mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch yn effeithiol i fentrau ehangach (e.e. ein Strategaeth Cwsmeriaid; sut rydym yn gweithio o ran Lle; ein polisiau Pobl ehangach), mae perygl na fyddwn yn sicrhau'r newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol sydd eu hangen.

Y Camau Nesaf

15. Datblygu cynllun cyfathrebu er mwyn lansio'r strategaeth. Gwneir hyn ochr yn ochr â datblygu cynllun gweithredu manwl fel y gall y Bwrdd Pobl fonitro cynnydd. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod hyn yn cael derbyniad da o fewn CNC ac felly byddwn yn ceisio ailddylunio'r fformat i'w wneud yn gynnig mwy deniadol.

Goblygiadau Ariannol

16. Dim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, amcangyfrifir y byddai angen cyllideb flynyddol fras o £20k - £30k i symud y gwaith hwn yn ei flaen a chefnogi rhai o'r mentrau a'r gwaith dadansoddi. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hystyried yn fanylach fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu. Ar hyn o bryd, mae adnodd staff bychan ar waith sy'n cefnogi'r gwaith hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Os ydym am fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylid recriwtio person arbenigol sydd â phrofiad helaeth yn y maes hwn ar gyfanswm cost blynyddol o £45k (Gradd 7).

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

17. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau.

Mynegai i'r Atodiad

Atodiad 1: Gyda'n Gilydd – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant CNC

‘Gyda’n Gilydd - All Together’ - NRW's Diversity and Inclusion Strategy

Introduction

We want NRW to be an organisation where everyone feels they can participate, where we are open to new ideas, perspectives and innovation, where we are seen as approachable and fair. This Diversity and Inclusion Strategy sets out our approach to deliver this ambition. How we give life to this strategy and its six key objectives, through our actions, language and behaviours, is central to who we are as an organisation. The six objectives reflect our organisational values and sit at the core of our Diversity and Inclusion Strategy. Most importantly, they apply to each and every one of us here in NRW – we all have a role to play in making these aims a reality in all that we do.

Why is this important? Put simply, a focus on diversity and inclusion in all that we do will better enable us to deliver on our strategic purpose as an organisation and help us tackle the climate and nature emergencies. A supportive organisational culture that embraces diversity and inclusion as part of its DNA will be more creative and innovative – qualities that are essential for us to grow given the complexity and urgency of the challenges that we face. Done well, it will help to broaden the range of people who work for and with us, bringing fresh perspectives and challenge. This focus will also ensure that we become more representative of the communities that we serve as well as being better placed to connect and work with all those communities on our shared endeavours and challenges. Ensuring we create a culture where everyone feels able to participate, where they can bring their whole-self to work and achieve their full potential will make us a better organisation and, in simple terms, is the right thing to do.

So what do we mean when we talk about diversity, inclusion, equality and equity in the context of this strategy?

- Diversity is about being open to fresh perspectives, creativity and innovation;
- Inclusion is about creating an environment where everyone feels able to participate;
- Equality is about treating people fairly, irrespective of their characteristics; and
- Equity is the principle of giving extra support to people because of their race, sex, social background or physical differences.

Turning these elements into reality means reflecting on our individual behaviours and language, embedding them into our values and culture and ensuring that we have the right environment, systems, policies and processes in place to enable rather than hinder. Doing so is critical if we are to deliver our strategic objectives - we need to be an inclusive organisation that values diversity of thought, diversity of voice, diversity of approach and diversity of views. We believe that ensuring that this becomes part of our organisational DNA will make us a more effective and respected organisation that genuinely lives its values.

We need to ensure that we continue to address issues and blockers in relation to those individuals to whom we have legal responsibility (those with the 9 key protected characteristics according to Equality legislation). However, we don't want

to limit our focus to those groups. We want to focus on people and not put anyone into a 'category'. We therefore wish to take into consideration a much broader and wider view of under-represented and seldom-heard groups and communities, including from a socio-economic perspective, to become truly diverse and inclusive organisation.

Our Approach

Over the past 12 months, we have taken the opportunity to review our current position as an organisation, our commitments (including our commitments in the Shared Equality Plan for public sector bodies in Wales), our organisational aims and objectives and those areas where we want to make a real difference over the next 3 years.

As part of that process, we commissioned external assessor to undertake an assessment of our activities under the umbrella of equality, diversity and inclusion, seeking views and feedback both internally within NRW as well as from external partners and stakeholders. This assessment outlined much good practice but also identified the need for more integration across the breadth of what we do and ensure a greater focus on getting some of the basics right. This assessment put emphasis on the importance of ensuring that inclusion and diversity become an intrinsic part of who we are and what we all do rather than either being treated as an add on or something that is the responsibility of some parts of the organisation.

Following this assessment, we convened a Task and Finish Group comprised of a representative group of staff from across the organisation and at various grades to help identify our key objectives for the next 3 years (2022-2025). These objectives, set out below, have also been influenced by the feedback from stakeholders and learning from external initiatives.

How do we want to make a difference?

This strategy is centred around 6 key objectives:

- *Bring about a shift in our culture by identifying and implementing initiatives that support everyone to actively listen and model inclusive workplace behaviours*
- *Improve the quality of data we capture to enable us to make more informed and better decisions Raise the diversity and inclusion bar through 'living our values' and by supporting and celebrating our own diversity as well as the diversity of Wales*
- *Review the way we use language in our policies and practices in order to create a more inclusive and diverse culture Ensure anyone in Wales, including our existing and new customers, stakeholders, and service users are able to shape our services and easily access our spaces*

Ensure our policies align with our diversity and inclusion objectives and develop our people in a meaningful way We have identified key actions to help us deliver our aims along with indicators that will be used to measure progress. Not all of this will

be achieved on our own. We recognise the need to engage with other sectors to hear from their experiences, share in the research, tackle issues much earlier in the lifecycle and much more.

How will NRW look and feel like in 2025?

By 2025, our aim is that:

- Everyone at NRW understands and positively embraces inclusion and diversity.
- Diversity and Inclusion is an intrinsic part of who we are and what we do, both internally and externally.
- As an organisation, we are becoming more representative of a diverse modern Wales
- We collect relevant data and use it more effectively to inform our approach.
- Equality Impact Assessments are seen as actively influencing our decision process.
- We have a zero tolerance culture to inappropriate behaviour and support individuals to be able to confidently challenge such behaviours
- Demonstrable progress against our socio-economic deprivation duty; Public Sector Equality Duty 2011; Equal Pay reporting; Race Equality Action Plan for Wales; and Wales Public Body Equality Partnership Objectives 2020-24.

Our Objectives, Key Actions & Indicators

Objective 1: Bring about a shift in our culture by identifying and implementing initiatives that support everyone to actively listen and model inclusive workplace behaviours

Actions

- Implement a series of inclusive awareness sessions for all staff starting in Year 1 and continuing throughout the strategy
- Develop and implement guidance and support across the organisation to promote inclusive workplace behaviours
- Enable staff to identify and challenge inappropriate behaviours with access to support and coaching and provide 'active bystander' training for senior leaders and Board members
- All NRW staff and teams to have a relevant Equity/Inclusion Objective, with evidence (through feedback) of how they are embedded into actions

- Raise awareness of how inclusive ways of working have benefited teams using blogs/video interviews

Indicators

- Pulse and Staff Survey to monitor inappropriate behaviours
- Induction feedback on how inclusive it felt starting in NRW
- Yammer comments
- Anonymous 360 feedback on how managers behaviours have changed

Objective 2: Improve the quality of data we capture to enable us to make more informed and better decisions

Actions

- Improve the quality of data and insights by reviewing what internal and external people data we collect, address any gaps and have a clear plan to use this data to inform decision-making
- Highlight the benefits, and work to remove any barriers, to colleagues self-declaring/updating their personal confidential profiles
- Launch a scheme (Staff Multi Passport) to support open dialogue and help staff capture and maintain the required reasonable adjustments needed
